91.662
W465
no.20

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 20

RYBECA

DRAMA GYMRAEG
MEWN PEDAIR ACT.

Gan
GWILI.

CARDIFF:
THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

E.P.C. New List of Plays & Dramas

IN ENGLISH AND WELSH.

HELYNT HEN AELWYD (neu HELBUL TAID A NAIN). (*R. Williams.*) 2/- net, post free 2/3.

YR HEN GRYDD (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net. post free 1/2.

THE VILLAGE WIZARD. (*Dr. Naunton Davies.*) 6d. net, post free 8d.

DEWIN Y PENTREF. (*Dr. Naunton Davies.*) 6d. net, post free 8d.

BEDDAU'R PROFFWYDI. (*Professor W. J. Gruffydd.*) 2/- net, post free 2/3.

RUTH. (*Rev. J. J. Williams.*) 1/- net, post free 1/2.

ESTHER. (*Rev. J. J. Williams.*) 1/- net, post free 1/2.

ASGRE LAN. (*R. G. Berry.*) 2/- net, post free 2/3.

AR Y GROESFFORDD. (*R. G. Berry.*) Lord Howard de Walden Prize Drama. 2/- net, post free 2/3.

THE POACHER. (*J. O. Francis.*) 1/- net, post free 1/2.

PONT OREWYN. (*T. E. Ellis.*) Death of Llewelyn Olaf. 1/- net, post free 1/2.

Licences for Public Performance to be obtained from

The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 20.

RYBECA

DRAMA GYMRAEG
MEWN PEDAIR ACT.

Gan

GWILI.

CARDIFF:
THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

Rhaid cael caniatâd i chwarẽ'r ddrama hon. Anfoner ceisiadau at y Cyhoeddwyr.

Copyright under the Copyright Act, 1910.

Licences granted for public performance by the Educational Publishing Co., Ltd. Cardiff.

891.662
W465
no.20

Celtic grad. Eyt. Parry 1840-23 Educ. Publ. Co.

CYFLWYNEDIG

I

WŶR Y BONT.

p 46836

CYMERIADAU :

Dafydd Hughes, *Gwr y Tyisha, Llannon.*
Jac Hughes, *ei fab.*
Elias Jones, Yr Allt Fawr
Henry Lewis, Penllwyngwydr
William Lott, Y Goitre Wen
Dafydd Jones, Yr Hen Goitre
Lewis Davies, Tir bach
Dai'r Cantwr
Shoni Sgubor Fawr
} *Plant Rybeca i fesur mwy neu lai.*
Mr. Rees, *Ficer Plwyf Llannon.*
Dilwyn Llewelyn, Yswain, Penllergaer.
Lewis Dilwyn, Yswain, Abertawy.
Wm. Abbott, Yswain, Abertawy.
Capten Napier, *Pennaeth yr Heddlu.*
Cwnstabliaid, 1, 2, 3, a 4.
Betsi Hughes, *Gwraig Tyisha.*
Miss Edwards, *Merch Gelliwernen.*
Ann Jones, *Morwyn Gelliwernen.*
Gwraig yn gwerthu llestri coed.
Amryw eraill o blant Rybeca ; a chwnstabliaid eraill wrth Dollborth Pontarddulais.

NODIAD.

Cyhoeddir y gân a welir ar dudalennau 25 a 26 trwy ganiatad caredig Mrs. Huw J. Huws, Caerdydd. Benthyciwyd hi, ynghyd âg amryw fanylion, yma a thraw, o lyfr diddorol ei thad, y diweddar H. Tobit Evans—"Rebecca and Her Daughters."

Caner y penillion ar yr alaw "Mae Robin yn Swil."

ACT I.

GOLYGFA 1—Tyisha, tua 3 o'r gloch y prynhawn.

GOLYGFA 2—Wrth Gelliwernen, tua 9.30 o'r gloch y nos.

GOLYGFA 3—Ysgubor yr Allt Fawr, tua 10.30 o'r gloch y nos.

ACT II.

GOLYGFA 1—Gelliwernen, tuag 11 o'r gloch y bore.

GOLYGFA 2—Ffair Llandeilo Fach, tua 12 o'r gloch y bore.

GOLYGFA 3—Gelliwernen, wedi canol nos.

ACT III.

GOLYGFA 1—Ystafell ym Mhenllergaer, tuag 11.30 o'r gloch y bore.

GOLYGFA 2—Wrth Gelliwernen, tua 10 o'r gloch y nos.

GOLYGFA 3—Tollborth Pontarddulais, wedi hanner nos.

GOLYGFA 4—Gelliwernen, tuag 11 o'r gloch y bore.

ACT IV.

GOLYGFA 1—Tyisha, tua 7 o'r gloch y nos.

GOLYGFA 2—Gelliwernen, tua 6.30 o'r gloch y nos.

Y mae amser y tair Act gyntaf o ddiwedd Awst hyd y ddegfed o Fedi.

Amser Golygfa 1 yn Act IV yw diwedd Hydref ac amser Golygfa 2 yw canol Ionor wedyn.


Digitized by the Internet Archive
in 2018 with funding from
University of Illinois Urbana-Champaign Alternates

https://archive.org/details/rybecadramagymra20jenk

RYBECA.

ACT I.

Golygfa 1.

[*Cegin Tyisha, tua thri o'r golch y prynhawn, yn niwedd Awst. Tân glo carreg yn y grât, a phelau arno wedi llosgi'n bur isel. Crochan a pheth o'r llestri cinio ar y pentan mawr. Dwy sgiw o bob tu i'r tân, a bwrdd bychan crwn rhyngddynt. Cadeiriau derw yma a thraw. Seld-a-dreser â'i llond o lestri cywrain y tu ol i un o'r ddwy sgiw wrth y mur, a chloc wyth niwrnod hen ffasiwn yn ymyl. Y mae'r cynhaeaf gwenith newydd orffen, a'r prysurdeb mawr drosodd.*]

BETSI HUGHES (*yn groesawus*) : Wel, fe ddethot yn ol, Jac bach.

JAC HUGHES (*yn eistedd ar y sgiw chwith, ac yn ateb yn bur anfoddog*) : Do, mam ; ond alla i ddim godde pethe fel ma nhw bŵer yn rhagor.

BETSI HUGHES (*mewn ychydig syndod*) : Be sy te 'nawr, Jac ? 'Rwyt ti'n ol yn gynnar, machgen i. 'Dyw hi'n awr ddim ond tri o'r gloch.

JAC HUGHES : Se popeth gystled â'r amser, mam, mi fydde'n burion.

BETSI HUGHES : Beth sy o le 'te, fachgen ? Ma dy wep di cyd â milltir.

JAC HUGHES : W i ddim yn diall pam ŷn ni'n gallu bod mor ddishtaw ffordd hyn, a manne erill yn *gneud* rhwbeth.

BETSI HUGHES : Gneud beth, Jac ? Dere mas â hi, fachgen, yn lle rhyw swddanu fel hyn. Gwed tho i beth sy'n bod.

JAC HUGHES : Wel, dyma beth sy'n bod, mam. Ych chi'n y 'ngweld i newydd ddod 'n ol â'r llwyth glo 'ma. Dyna fe wedi costi bron cymint i fi yn y gâts âg ar ben y lefel (*Yn wawdlyd a digllon*) : Wyth gwaith y tales i heddy, a grot bob tro ! 'Dôs dim sens yn y peth. Doi ag wyth am werth triswllt o lo! A neb yma'n gweyd dim. Neb trwy blwyf Llannon yn gneud dim i gâl gwared o'r gâts y felltith 'ma ! Ma pob man arall, mam, yn codi fel un gwr. Ma shir Gâr i gyd ar ddihun—a Llannon yn cysgu. Fe fydd raid i rwun gynnu'r tân yma hefyd, ag wrth i fi dalu'r rot ddiwetha yng ngât Llether Mawr, gynne, ôn i'n shwr pwy ôdd i ddechre.

BETSI HUGHES : Pwy, Jac ? Ti ? (*Yn araf a difrifol*) : Pwylla di 'nawr dipyn bach, y machgen annwl i. (*Yn mynd at y pentan.*) A beth sy arna inne fel hyn yn whalu pen rheswm â ti ? Ma ishe bwyd arnot ti'n dost, wy'n gwbod, a ma 'ma dipyn o gino neis wedi gadw i ti. Dere mlân, y ngwas i,

fan hyn, a fe gei amser i ddod i dy le gam bwyll. (*Yn gosod bwyd ar y bwrdd.*)

JAC HUGHES (*yn dod ato*) : Os, ma whant tipyn o gino arna i, hefyd, mam. Ond fydda i fawr dishtawach ar ol i gâl e. Pwy dŵel all dyn fod ? Rhy dŵel ŷn ni yma. Pan bo fi'n meddwl am yr Eglwys Wen ag ochre Castell Newydd Emlyn, w i'n timlo'n bod ni'n fwy nag ôs ar ol. Ble ŷn *ni* yn ochor gwŷr Cynwil, ne wŷr Llansadwrn, ne wŷr Llandybie ? 'Dŷn ni ddim yn werth yn seiffro. Ma 'ngwâd i'n berwi at y dynon côd sy yn Llannon a Llanedi 'ma. 'Dôs 'ma neb â thipyn o asgwrn cefen 'dag e. Dynon godde popeth sy'n Llannon, mam.

BETSI HUGHES : Bit dy fwyd, Jac bach ; fe ddaw amser gwell ar y byd, heb i ti golli dy anal.

JAC HUGHES : Daw, mam fach, fe ddaw amser gwell, ond ddaw e ddim heb i rwun i brynu fe, a'i brynu fe'n brud, f'alle. Ddaw e byth, mwy na theyrnas nefodd, wrth ddishgwl, a godde, godde o hyd.

BETSI HUGHES : Mi weles i amser gwâth o lŵer, Jac, pan ôn i'n dechre 'myd. 'Dwyt ti ddim yn gwbod dy eni, machgen bach i, wrth fel y gweles i ddi. Beth se ti'n byw yn amser rhyfel Boni, a'r blynydde ar ol y batl o Waterlw! Fe welset fara dipyn yn gwrsach, a thipyn llai o enllyn, ddala i ti. Ma'r byd yn gwella, Jac, cred di fi, ond i fod e'n hala tipyn o amser. Ond dyma dy dad!

DAFYDD HUGHES (*dyn bychan tywyll, llygaid duon—pur felancolaidd—lberiad bob modfedd ohono —yn dod i mewn*) : Fe ddethot te, Jac. O wel! Dyma hen ddiwarnod pwdwr yw hi. Ma hi'n fwll iawn. Stim shwd beth a gneud dim heddy. Diolch bod y cnia miwn, er lleied odd e. Fe fydd yn anodd byw, y flwyddyn nesa 'ma, a ma prishe popeth yn cwnnu, ond prishe'r ffarmwr. W i ddim yn gwbod beth ddaw ohonon ni cyn diwedd.

JAC HUGHES : A dyma'r degwm 'ma, nhad! Ma Goring wedi brynu fe, ag wedi godi e deirgwaith y peth ôdd e.

DAFYDD HUGHES : Wyt ti'n gweyd y gwir, y machgen i.

JAC HUGHES : A dyma'r dreth eglws yn dala fel âg ôdd hi. Ddaw honno ddim lawr, nhad, tra bo cloch mwn clochty.

DAFYDD HUGHES : Paid ti â gweyd dim, Jac, yn erbyn y dreth eglws. W i'n folon talu honno, ta beth.

BETSI HUGHES : On i'n meddwl ma dyna wetse dy dad. Eglwyswr yw e o hyd, ti'n gweld, er i fod e'n dod 'da fi i Fethania oddar priodson ni.

JAC HUGHES : Fe gewn dalu popeth ŷn ni'n gweyd dim yn erbyn u talu nhw, nhad. Dir yn helpo ni, dyma i chi ddeddf newydd y tlodion 'ma. 'Dyw hi ddim hanner cystled â'r hen. Ond ma cefne

dynon sy'n folon i'r dreth eglws, ag yn folon i'r degwm 'ma ma Goring yn i hala ar i rasis, yn ddigon llydan. A dyma i chi'r cwnstablied newydd 'ma sy'n byta'r wlad, a'r dyn 'ma sy'n ben arnyn nhw â'i arian mawr. A dyma i chi'r haid 'ma o swyddogion y dreth. Ma nhw'n wâth na locustiaid Joel, 'slwer dydd.

DAFYDD HUGHES : Ma pŵer o wir yn y peth wyt ti'n weyd, Jac, ond fe fydd yn well i ni blygu i'r drefen, wedi'r cyfan, er i ni fynd yn glotach.

JAC HUGHES : Alla i ddim credu dim o'r short, nhad, esguswch fi'n gweyd tho chi. Plygwch chi, a fe gewch blygu nes bo'ch pen chi yn y baw, a fe ddaw'r gyfreth â'i cheffyle drwstoch chi wedyn.

DAFYDD HUGHES : Wel, y machgen bach i, w i wedi gweld tipyn yn fwy na ti, cyn dod i'r fan hyn. Shwd ma'r hen weddel hefyd—"Yr hen a ŵyr, a'r ifanc a dybia." Weles i ddim byd yn well, Jac, na'i godde ddi. Fe gei dithe weld, rwbryd, taw fi sy'n iawn. Mynd o wâth i wâth ma'r hen fyd 'ma, a nei di, mwy na finne, fe fymryn gwell, er i ni whalu a whalu, a chodi'n cloch hyd Glyngia.

JAC HUGHES : W i'n meddwl gneud mwy na chodi 'nghloch, nhad. Ddŵa i ddim i glôs Tyisha to, a thalu doi ag wyth i'r gâts am werth triswllt o lo, fentra i chi.

DAFYDD HUGHES: Paid â chodlan pethe felna. Chlwest ti ddim am fechgyn bach Cwm

Cile ? Ma nhw'n perthyn rhwbeth i dy fam. Dyma nhw wedi hanner u lladd 'da'r Capten Napier 'na o Bertŵe a'i gwnstablied. Ma hanner y tilu yn y ddalfa am u hamddiffyn nhw.

BETSI HUGHES (*mewn syndod*) : Cato ni'n brudd! Pwy ddwad 'na tho chi, Dafydd ?

DAFYDD HUGHES : William Bryndu odd yn dwad drw'r Bont echdo, a *fe* ddwad tho i heddy yn y Red Lion.

BETSI HUGHES : Syndod na fusen ni wedi clwed rhw air. Shwd buws hi, medde William ?

DAFYDD HUGHES : Ych chi'n cofio am wr y Llety, Llangyfelach. Fe'i gwelsoch e 'da fi yn ffair Llanedi, llynedd. Wel, 'dôdd dim llŵer o fola rinto fe a gwŷr Cwm Cile ; a ma'n debig i fod e wedi mynd at y Capten Napier a'r Inspector Rees, ag wedi sgothi am Henry Morgan. Nhw, medde fe, ôdd benna yn torri Gât y Gopa Fach a Gât y Bolgod.

BETSI HUGHES : Odd ishe gwaith ar yr hen glymhercyn.

DAFYDD HUGHES : Falle hynny, ond ddaw dim da o ddrwg, Betsi fach, byth. A fe wedws William Bryndu, tho i fod no le yn Cwm Cile. Fe hanner laddwd y Capten Napier.

JAC HUGHES : Itha gwaith âg e.

DAFYDD HUGHES : A ma un o'r bechgyn—John, wy'n meddwl—wedi sithu, ac yn y jâil yn Bertŵe, yn ddiargol byw.

BETSI HUGHES : Druan bach! Ma 'ngwâd i'n twymo peth, Dafydd, wrth glwed pethe fel hyn.

JAC HUGHES : Ma 'ngwâd i *wedi* twymo, ys cetyn, mam. Shwd ma godde'r pethe 'ma'n rhagor?

DAFYDD HUGHES : Cymer di bethe gam bwyll, y machgen i, ne falle bydd hi'n wâth arnot ti yn y pen draw nag ar John Cwm Cile.

BETSI HUGHES : Fe fydde'n rhwyddach gwaith iddo fe arafu, Dafydd, se fe'n fwy o fab idd i dad.

DAFYDD HUGHES : Falle'n wir, Betsi. Ond dyma fi'n mynd mas i weld shwd ma'r bechgyn 'na'n dwad yn u blân. Helpu'r hewl i fi ma nhw heddy.

BETSI HUGHES : 'Dôs dim ishe i chi fynd mor bell â'r Red Lion i weld hynny, cofiwch. Dewch yn ol ar ych union, Dafydd, yn lle aros hyd *stop tap*, nos ar ol nos, a gweyd yn ych diod wrth bawb fod y byd yn mynd ar i wâth.

DAFYDD HUGHES : Fe gewn weld, Betsi. (*Yn myned allan.*)

BETSI HUGHES : Cewn, fe *gewn* weld. (*Yn troi at* JAC.) Jac bach, dw i ddim am gwnnu dy lewish di, ond w inne'n gweld nadi pethe ddim fel y dyle nhw fod. 'Dyw e ddim yn ddigon i ni dalu'r holl arian 'ma i'r gâts, heb yn bod ni'n gorffod helpu wedyn i wella'r hewlydd. Ma'r pwyse i gyd yn dod ar yr esgwdd wan, fel iti'n gweyd. 'Dw i ddim yn gwbod shwd ma gwella pethe, ond w inne'n gweld

fod yr hen fyd 'ma dipyn mawr o'i le,—Druan o dilu Cwm Cile!

JAC HUGHES : Ie'n wir, mam. Odd gen i olwg ar John. Bachgen trwyddo yw John Morgan. A drychwch ar Bontarddyles. Ma hi fel dinas girog o'r Hen Destament, yn byrth o bob pen, heb sôn am i chenol hi. Grindwch chi arna i—fe glywwn ni rwbeth am Gât y Bont, ag am Gât yr Hendy, cyn bo hir, er gwitha'r Capten Napier 'na a'i griw. A falle clywwn ni rwbeth am le sy'n nes na'r Bont, na'r Hendy.

BETSI HUGHES : Falle gnewn ni'n wir ; ond ta beth sydd i fod, da ti, Jac bach, paid *ti* â bod yn y ffrynt, y machgen i, er mwyn dy fam. Wy'n dy adel di 'nawr, i edrych ar ol y morwmon 'na a'r godro. (*Yn mynd allan.*)

JAC HUGHES : O wel, ma'r ffermwyr 'ma fel côd! Ond pwy ŵyr? Ma rhai ohenyn nhw yn dechre dod mas o'u plishg, a ma 'ngobeth i'n gryf mwn tri neu bedwar ohenyn nhw. Fe gwrddes â Dai'r Cantwr a Shoni Sgubor Fawr heddy, a mi ddŵa nhw i gwrdd nesa'r Allt Fawr. Yn ni wedi cwrdda 'no droeon—odyn—a gneud dim. Ond ma'r byd i wella rwbryd, er gwitha nhad, a phan ddaw'r tân o'r diwedd, dros Fynydd Bach Llannon, w i'n meddwl y bydd 'no ffagal gwerth i gweld. (*Yn mynd allan.*)

Llen.

Golygfa 2.

[*Wrth Gelliwernen, tua hanner awr wedi naw o'r gloch y nos.*]

JAC HUGHES (*yn chwareus*) : Ar ol dy amser heno, Ann.

ANN JONES (*fel geneth o forwyn mewn tŷ gweddol dda*) : Ma hi withe'n digwdd fel hyn, Jac.

JAC HUGHES : Dim gormod o want y 'ngweld i, spo.

ANN JONES : Na, nid hynny hefyd—'dôs dim ishe gweyd tho ti.

JAC HUGHES : Beth ôdd te ? Ofon jengid mas, Ann ?

ANN JONES : Na, 'dôs fawr o hynny arna i. Odd Mr. Rees, y Ficer, 'ma heno, a fe fuws Mr. Edwards ag ynte yn trin y byd a'r eglws ar gino, hyd gine fach. Newydd fynd ma'r Ficer.

JAC HUGHES : Ddala i nag ôdd Miss Edwards fawr bolon idd i thad fynd âg e mor llwyr odderni ddi.

ANN JONES : Wn i ddim, wir. Ma e'n i gweld hi ddigon, yn ystod y dydd. Ma nhw'n gweyd y bydd 'ma briodas cyn diwedd y flwyddyn, ond wela i fawr argol o hynny hefyd.

JAC HUGHES (*yn araf a difrifol*) : Falle bydd 'ma *angladd* cyn hynny.

ANN JONES : Beth yw dy feddwl di, Jac ? Angladd pwy ?

JAC HUGHES : Fe fydde'n well i ti a finne aros i gâl gweld. Ond beth ôdd 'da'r hen Agent 'ma a'r Ficer i wilia yn i gylch e, heno, mor hir ? Fentra i fod y syler dipyn yn wacach pan gwplon nhw.

ANN JONES : Na, wir, chydig bach iawn ifson nhw. Yr odd y sharad yn fân ag yn amal, a nhwnte'n rhy seriws i ifed rhw bwer.

JAC HUGHES : 'Dyw e ddim yn bart o waith morwm i rindo ar ddoi wr bonheddig yn trin y byd, ond ma'n debig na chuest ti ddim o dy gluste.

ANN JONES : Wel, os wyt ti am wbod, fe fuon yn son tipyn am y degwm a'r dreth eglws, ag am Rybeca a'r Dragwns.

JAC HUGHES : Do, ma'n debig. Ma'r Ficer a dy fishtir yn ofni am obeth u helw—y tacle shag ŷn nhw.

ANN JONES : Nag ŷn, wir, ddim rhw bwer. Odd Mr. Edwards yn camol ffermwyr plwyf Llannon, ag yn gweyd u bod nhw'n shampl i blwyfi erill.

JAC HUGHES : Falle gweliff e cyn hir u *bod* nhw'n shampl.

ANN JONES : Beth yw dy feddwl di, Jac, yn corddi fel hyn o hyd ?

JAC HUGHES : Nid y 'ngwaith i yw gweyd tho ti, Ann ; ond ma hi bron yn bryd i wr Gelliwernen fod yn barod.

ANN JONES : Da ti, Jac, paid â lolan fel hyn, bob tro.

JAC HUGHES : Esboniwr da yw amser, Ann.

ANN JONES : Ie, mi glŵes. Clyw, Jac. Odd mishtir a'r Ficer Rees yn shwr na fydde maddim tyrfe a llyched yn y plwyf bach hyn : a mi glŵes Mr. Rees yn gweyd yr ele fe drwy'r ffermydd i gyd, y dyddie nesa 'ma, i gynghori pawb i fyw yn ol y gyfreth.

JAC HUGHES : Testun da yw hwna i ddynon sy'n byw ar y plwyf.

ANN JONES : Paid di 'nawr â cholli dy ben, Jac bach. Fe ddaw'r Ficer i Dyisha, fory ne drynnydd, a chymer di gyngor 'da fi. Cadw di dy hunan o'r golwg, pan daw e ; ne, os byddi di yn y golwg, paid â chlochtar rhw bŵer. Tafod dewi yw'r gore i ti, cred di fi. Fe glŵes i heno enwi'r rhai ôdd yn clebran ar ol codi'r degwm. Gei di weld y bydd raid i rai ohenyn nhw wilo mas am lefydd erill. Ma Mishtir yn gwbod, medde fe, yn llaw pwy ma'r whip.

JAC HUGHES : Odi, odi ; falle caiff e wbod, cyn Clyngia, yn llaw pwy ma rhwbeth arall.

ANN JONES : Gad hi fanna, Jac. 'Dwy i ddim am dy weld di'n troi whil fawr Carfyrddin ; ond ma arna i ofon fod dy drâd di bron â bod erni ddi hefyd. Ond ma hi'n bryd i fi fynd miwn. Dishgwl di eti ddi, 'nawr, y dyddie nesa 'ma, Jac bach. Nosweth dda i ti. *(Y ddau yn mynd allan gyferbyn a'i gilydd.)*

Llen.

Golygfa 3.

[*Ysgubor yr Allt Fawr. Bwrdd bychan yn y canol âg un gannwyll arno. Cadair yn ymyl, a mainc neu ddwy ymhellach oddiwrthi. Amaethwyr cyfrifol yn eistedd arnynt. Amryw amaethwyr eraill a'u meibion yn eistedd neu orwedd yn y gwellt ar hyd a lled yr ysgubor. Y mae tua hanner awr wedi deg o'r gloch y nos.*]

DAFYDD JONES : W i'n cinnig Elias Jones, fel arfedd, i'r gader.

LEWIS DAVIES : Ma'n bleser 'da fi eilio cinnig Dafydd Jones.

DAFYDD JONES : Dyna fe ; pawb sy drosto! Pawb!

ELIAS JONES (*yn dod at y bwrdd, ac yn codi ar ol eistedd*) : Wel, gyfillion, 'dw i ddim yn meddwl bod ishe areth fawr, heno 'to. Ma gyda ni faterion pwysig idd u trin, a mi fydde cystled i ni fynd at yn gwaith ar unwaith. Pwy sy 'ma gynta â gair ar i feddwl e, ne ginnig i roi o flân y cwrdd ?

JAC HUGHES : Mr. Cadirydd, fe wyddoch i ni ffurfio Undeb Amithwyr Plwyf Llannon yn y fan yma fishodd yn ol, a bod y rhan fwya o ffermwyr y plwyf wedi uno 'da ni, i'r diben o symud y gorthrwm sy arnon ni. Ma'n ddrwg iawn 'da fi nag ôs dim byd o fawr gwerth wedi neud, o hynny hyd yn awr.

Beth well ŷn ni o gwrdd a chwrdd, a sharad a sharad, a neb yn *gneud* dim ? Ma'r trethi'n drymach o lŵer nag y buon nhw, a'r degwm yn drebel y peth y gwelson ni e. Ond dyma ni, fel lloi, yn godde a godde popeth. Ma pob plwyf arall, o Deifi i Lwchwr, yn wenfflam, a ninne'n dala i fod fel brwyn glishon. Os godde a newn ni, godde a gewn ni.

ELIAS JONES : Os cinnig 'da chi, Jac Hughes ? (JAC *yn ysgwyd ei ben.*) O, dim ar hyn o bryd! O'r gore.—Wel, dyna ddechre go dda, ta beth. Mi wela fod gan Mr. Lott, Goitre Wen, rwbeth i weyd tho ni.

WILLIAM LOTT (*amaethwr bonheddig ar ei draed*) : W inne, Mr. Cadirydd, yn timlo bod ishe gneud rhwbeth. Ma'r biche ŷn ni denyn nhw yn ddigon i wasgu'r cryfa ohonon ni, heb son am y gwanna. Fe fuo i'n *overseer* llynedd, fel y gwyddoch chi gyd, ag, wrth gwrs, yn gneud y ngwaith am ddim. Casglu'r arian, a'u rhoi nhw drwadd i'r cashêr ; a hwnnw a'i debig yn mynd â'r grym at u hiws u hunen. Yn wir, w i'n meddwl ta'r enw gore ar y *Poor Rate* newydd 'ma yw *Aristocracy rate*, a mi glŵes ma dyma yw i henw hi tua Llangadog a phen ucha'r Shir 'ma.

DAFYDD JONES : Itha enw erni ddi hefyd.

WILLIAM LOTT : A dyma'r cwnstablied newydd 'ma, i ofalu am Gymry Shir Gâr ; a'r

Inspector sy drwstyn nhw, yn câl i bedwar cant a hanner o bunne'r flwyddyn. Byth na chyffro i, ôdd na ddim galwad am denyn nhw. Ma'n râts ni, 'nawr yn saith a whech y bunt, ac os eiff hi 'mlân fel hyn, ryw bŵer yn rhagor, fe fyddan yn whigen, cyn hir, gewch weld.

JAC HUGHES : Pam na *newch* chi rwbeth te, Mr. Lott. Ych chi'n ddyn a alle'n harwen ni.

WILLIAM LOTT : Ma Jac Hughes, Mr. Cadirydd, am wbod pam na 'na i rwbeth! Syndod mawr! 'Chydig ma e'n wbod beth wedes i wrth yr *overseer*, a mor ddrwg yw 'nghownt i 'da Mr. Goring a'i Agent oblegid y degwm, a 'da'r Ficer oblegid y dreth eglws. 'Dw i ddim yn spario neb o'r gwŷr mawr 'ma, Syr, pan gelo i gyfle, nagw'n wir i chi.

LEWIS DAVIES : W i'n ifanc i sharad, Mr. Cadirydd, a ma 'da fi bob parch i Mr. Lott, Goitre Wen. Cyfell y gwan yw e, fel y ceso i wbod cyn hyn, fwy nag unwaith. Ond w i'n meddwl hefyd fod ishe mwy na sharad â'r gwŷr mawr am y pethe hyn. Ma u crwyn nhw'n rhy dew i dimlo ergid gair. Ma'n rhaid u cyrradd nhw drw ryw ffordd arall, yn shiwr i chi.

DAFYDD JONES : Itha gwir, Lew Tirbach ; a ma'n rhaid cadw hynny yn y golwg o hyd, heno, ne welwn ni fawr yn dod o'r cwrdd hyn 'to.

HENRY LEWIS : Mr. Cadirydd, eglwyswr w i, fel ŷch chi'n gwbod, ond w i mor selog â neb dros

yr Undeb ma. Ma 'da ni bŵer o bethe ma ishe u gwella nhw ym mhlwyf Llannon : w i gyda chi i'r carn ar hyn—ond, wedyn, 'dw i ddim am neud dim yn grôs i gyfreth y ngwlad. W i am fod yn ddilad ufudd i'r frenhines Victoria (Duw a'i cadwo'n hir i deyrnasu drwston ni !) Ma rhai ohonoch chi'n ifancach na fi, a ma'ch gwâd chi'n fwy pôth, wy'n gwbod ; ond, yn wir i chi, 'dw i ddim am weld y pethe ddigwyddodd wrth Gât Porthyrhyd ag wrth Gât y Bolgod yn digwdd yn y plwyf hyn. Chewn ni byth gyfiawnder drw anghyfiawnder—na chewn byth. Ma gyda ni ddynon drwston ni yn y Parlament, a fe allan nhw ddadle'n cês ni yno, ond iddyn nhw i ddiall e. Ag os na allan nhw gâl tro ar y Senedd, fe allwn hala pitishwn ar i union at y Frenhines i hunan. Na, wir, dw i ddim am weld neb o'r dynon ifenc 'ma yn y jâil, ne ar y grogbren, ne draw tuhwnt i'r môr yn Tasmania.

WILLIAM LOTT : W inne'n dala 'da Henry Lewis, Penllwyngwydr, Mr. Cadirydd. Er cymint yw'n cam ni, ma'n rhaid i ni ddadle'n hachos ar dir cyfreth. Fydd dim ishe hala'r *Seventy-third* a'r *Dragwns* lawr i edrych ar ol dynon fydd yn gneud fel hyn.

JAC HUGHES : W i'n gweld, Mr. Cadirydd, i ble'r ŷn ni'n dod. Cwrdd clebran fydd hwn 'to, a chwrdd gneud dim. Clindarddach drain dan grochon yw hanes Undeb Amithwyr Plwyf Llannon ; ag

os ewn ni at y *Parlament*, ne i seino pitishwn, a bod hwnnw cyd â'r sgubor 'ma, fe fydd yr ifanca sy 'ma'n hen i wala cyn daw tro ar fyd.

(DAI'R CANTWR *a* SHONI SGUBOR FAWR *yn dod i mewn ar ganol yr araith.*)

DAI'R CANTWR : Da ware, machan mowr i!

SHONI SGUBOR FAWR : Ie, weda inne. Y Gorin a'i Agent—i gythrel â nhw!

WILLIAM LOTT (*yn dawel*) : Pwy yw'r rhein, Henry Lewis ?

HENRY LEWIS (*yr un modd*) : Dai'r Cantwr, y Baledwr, a Shoni Sgubor Fawr, yr ymladdwr—plant y cythrel.

WILLIAM LOTT: (*eto*) *We're done for. The fat is in the fire. I can see where this is going to end.*

JAC HUGHES : Ma'n dda gen i weld yma, Mr. Cadirydd, ddoi ddyn sy'n gneud rhwbeth gyda sharad. Rhowch dderbyniad, gyfillion, i Ddai'r Cantwr a Shoni Sgubor Fawr. Ych chi gyd yn gwbod u hanes nhw ; ond mi weda i chi unpeth na ŵyr pawb ohonoch chi ddim am dano fe. Y ddoi fachan hyn a rhywrai erill tu fas i ni nâth y tipyn a nesbwd ar Gât yr Allt ma, ar y cynta o Awst.

LEWIS DAVIES (*ac eraill*) : Hwre! Hwre!

HENRY LEWIS: Fe wela'ch bod chi ar y llwybyr i ddistriw, mechgyn bach i. W i wedi'ch rhybuddio

chi, a dyma fi a Mr. Lott yn golchi'n dwylo orwth-och chi. W i'n gobitho'n fawr y cadwch chi rhog tywallt gwâd. Nos da! (HENRY LEWIS *a* WILLIAM LOTT *ac eraill o'r ffermwyr cefnog yn mynd allan.*)

LEWIS DAVIES : Mi wela, Mr. Cadirydd, y bydd yn rhaid i *ni*, ffermwyr llai, ymladd y batl ; ond gadwch i hynny fod. Am a dâl hi'n awr!

SHONI SGUBOR FAWR : Ie, myn diain i, am a dâl hi. I gythrel â phob scriw!—Cân, Dai bach! Cân bennill neu ddoi am y "Porthyrhyd Lion." 'Dyw'r hen gân fawr o beth—mi wn i gyment â hynny—ond mi nei di rwbeth oheni ddi, ddala i goron.

DAI'R CANTWR : Caton pawb, Shoni, ciân dy hunan witha. Dirshefon i, cha i byth lonydd gita'r giaffar sy gen i 'nawr.

SHONI SGUBOR FAWR : Dere, dere, Dai'r Cantwr. Bachan diain, paid â godde dy gymell.

DAI'R CANTWR : Wel, os ôs rhaid i fi, cianwch chi, fechgyn bêch, y byrdwn. Ma hwnnw fel hyn :

"Wrth Gât Pontyrhyd, wrth Gât Pontyrhyd,
Fe loriodd Rybeca'r gelynion i gyd."

(*yn canu'r faled a ganlyn*) :

"Poor Ianto the Lion they all failed to find,
His cheese and his butter were left too behind ;

Farewell to his crockery, and spokes of the cart,
His life he thought sweetest, and then made a start.
Cytgan : Wrth Gât Pontyrhyd, &c.

The Lion, though frightened, lay still among cows,
And now, well ashaméd, has made many vows ;
If 'Beca will pardon his former offence,
He'll not meddle with tollgates on any pretence.
Cytgan : Wrth Gât Pontyrhyd, &c.

Ym mysg y constebli 'roedd constab lled smart,
A ddwedai'r ymladdai â'r hen Bonapart :
Ond pan ddaeth Rybeca at Gât Pontyrhyd,
'Roedd Dic o Forgannwg mewn llewyg yn fud.
Cytgan : Wrth Gât Pontyrhyd, &c.

The smith had thought proper to make his retreat,
Good-bye to the Toll-house, farewell to the Gate.
'Roedd utgorn Rybeca yn swnio fel cloch,
A chwatodd y chwiwgi yn gymysg â'r moch.
Cytgan : Wrth Gât Pontyrhyd, wrth Gât Pontyrhyd,
Fe loriodd Rybeca'r gelynion i gyd.''

ELIAS JONES : Da iawn, wir, y baledwr o Lancarfan!

DAFYDD JONES (*ac eraill*): Hwre! Hwre!

JAC HUGHES : Ma hwyl yn beth da, Mr. Cadirydd, a w i mor barod â neb i ddiolch i Ddai'r Cantwr am godi tipyn ar yn hysbryd ni ; ond ma'n rhaid i ni drefnu rhwbeth heno, cyn madel, ne fe fyddwn yn yr unfan am fish arall—ond byddwn ni ?

ELIAS JONES : Digon gwir, Jac Hughes. Wyt ti'n barod â dy ginnig o'r diwedd, 'ngwas i ?

JAC HUGHES : Odw, o'r diwedd ; a chystled i fi adel y gath o'r cwdyn fan hyn. 'Dôdd e ddim yn ddrwg i gyd 'da fi i weld Lott a Henry Lewis a rhwrai erill yn mynd mas, gynne. Wnewn ni ddim â dynon glastwredd ynglŷn â'r pethe hyn sy 'da ni mwn llaw. *All hands to the wheel* am deni, os dim.

DAFYDD JONES : Itha gwir. W i gyda ti, Jac, i'r carn.

JAC HUGHES : Yn awr, ma'ch meirch chi gyd yn barod, a'ch arfe a'ch dillad, gobitho. Goring yw'n gelyn penna ni, ontefe ? Ag Edwards, Gelliwernen, yw'r ail. Ag am wn i nag yw'r Agent yn wâth na'i fishtir, achos 'dyw Goring ddim yma ond withe, a 'dyw e ddim yma 'nawr. On i ar y cynta am ymosod ar y Plas, ond beth gwell i ni o drio sithu deryn sy heb fod ar y nyth ? Ar Gelliwernen y ma'n rhaid i ni daro, a 'dôs dim arbed i fod ar y cnâf sy 'no.

DAFYDD JONES : Itha gwir. Scamp yw e, fel y gwn i'n rhy dda.

JAC HUGHES : Y mhlan i yw i ni gwrdd am unarddeg o'r gloch, nos Fercher nesa, wrth y Red Lion. Fe drefniff Shoni a Dai, fe wn, â gwŷr Mynydd Sylen a Phontyberem i fod yno mewn pryd.

SHONI SGUBOR FAWR : *Trust me*, machan bach i.

JAC HUGHES : Fydd neb mor ffol âg anghofio'r cyrn a'r arfe, ma'n debig. Hyd hynny, 'te, " tafod dewi " yw'r gair i bawb.

ELIAS JONES : 'Rych chi gyd yn gwbod pwy fydd RYBECA.

JAC HUGHES : 'Dôs gen i ddim ond gobitho y bydd hwnnw'n dilwm o'r anrhydedd. W i'n dechre gweld y tân yn cynnu ar y Mynydd Bach, ag os na chynniff y brwyn, fe losgiff yr ithin.

ELIAS JONES : Nos Fercher, 'te, am un ar ddeg o'r gloch. Gloywch ych arfe, mechgyn i. A dyma i chwi eto adnod y frwydr : " A hwy a fendithiasant Rybeca, ac a ddywedasant wrthi, etifedded dy had borth dy gaseion."

LEWIS DAVIES : W i'n cinnig yn bod ni'n diolch yn fawr i'r Cadirydd am i waith heno 'to. Hen le'r batlo am ryddid cydwybod yw'r Allt Fawr 'ma, fel y gwyddoch chi, a ma'n dda 'da fi fod ma Elias 'to i godi llef yn erbyn gorthrymwyr.

DAFYDD JONES : W i'n eilio'r cinnig o 'nghalon. Fe nillwyd yr hen fatls, a fe nillir hon 'to, ond bod yn ffyddlon.

LEWIS DAVIES : Gnewch yr arwdd arferol, 'te, gyfillion. (*Pawb yn curo dwylo, a llefain " Hwre! Hwre! "*)

ELIAS JONES : Diolch yn fawr i chi gyd. Ma'r cwrdd ar ben. (*Pawb yn myned allan.*)

Llen.

RYBECA

ACT II.

Golygfa 1.

[*Ystafell* Miss Edwards *yng Ngelliwernen, tuag un ar ddeg o'r gloch y bore.*]

MISS EDWARDS (*merch ifanc, dal, landeg, wedi gwisgo'n drwsiadus, yn dod i mewn.* Ann, *y forwyn, yn codi'r* vase *flodeu oddiar y bwrdd bychan ar ganol yr ystafell, ac yn ysgwyd y llwch oddiar y bwrdd yn ysgyfala*) : 'Dôs 'ma fawr gwaith yn mynd 'mlân yma heddy, Ann. Ych chi fel se chi'n cered yn ych cwsg, ferch. Beth sy arnoch chi, gwedwch ?

ANN JONES : 'Dôs dim byd arna i, Miss Edwards, am wn i.

MISS EDWARDS : Ma'n rhaid fod rhwbeth, Ann. Codwch ych calon, ferch ; 'dyw'r byd ddim ar ben, er i fod e'n ddigon drwg.

ANN JONES : Y dynon sy yndo fe sy witha, Miss Edwards.

MISS EDWARDS : Ych chi'n reit, Ann. Yn ni'n byw mewn diddie cymysglyd u gwala, ond ŷn ni ? Chlywa i ddim ond am dorri gâts a llosgi tai, a phoeni dynon diniwed. 'Dôs dim rhyfedd yn y byd fod y Llwodreth yn hala swjwrs i Landyfri a Bertŵe, a bod shwd lanast yn nhre Carfyrddin. Ddath

pethe ddim idd u lle yn y wlad 'ma, medde nhad, oddar dyddie'r *Chartists*.

ANN JONES : O wir ; 'dw i'n gwbod dim am y rheiny, Miss Edwards.

MISS EDWARDS : Wâth i chi heb wbod, Ann.

ANN JONES : Ma pethe'n dwel 'da ni yma, trw ddiolch.

MISS EDWARDS : Odyn, Ann, ma nhw ; ond ma arna i ofon y daw hi'n storm yma hefyd, cyn hir.

ANN JONES : Pam ŷch chi'n gweyd felna, Miss Edwards ?

MISS EDWARDS : 'Dyw pethe ddim fel y buon nhw yn Llannon, medde nhad. Cuwch cwd â ffetan yw hi 'ma'n awr, ys amser. 'Dyw'r ffermwyr ifenc 'ma ddim fel u tade ; w *i*'n gallu gweld hynny.

ANN JONES : Ma arna i ofon ma *chi* sy'n mynd i'r pruddglwyf yn awr, Miss. 'Dyw hi ddim yn dda i chi, mwy na finne, fynd i gwrdd â'r gofid.

MISS EDWARDS : O, Ann fach, ma llŵer o bethe'n mynd trw meddwl inne, y dyddie hyn. 'Dyw nhad ddim cystled i iechyd âg y buws e, a ma 'i waith e yn dodi wrtho fe'n fwy nag ôdd e, slwer dydd. 'Rodd e ar gefen i geffyl 'ma, ar hyd y blynydde, ond ma 'ma rwrai, erbyn hyn, sy am i dynnu fe oddarno fe. 'Dyw dyn sy ddim wedi arfedd câl i groesi ddim yn gallu godde tafode'r dynon bach mân 'ma, Ann.

ANN JONES : W i'n gweld nag ŷch tad ddim cystled âg y gweles i e, ond fe wyddoch chi, Miss Edwards, fel finne, nag yw hi ddim yn fyd gwyn ar y ffermwyr hefyd, â'r holl drethi ma sy ernyn nhw.

MISS EDWARDS : Fuws hi ariod yn fyd gwyn ar ffarmwr, os grindwch chi arno *fe*'n gweyd.

ANN JONES : All hi ddim bod yn wyn iawn ernyn nhw, beth bynnag wedir. 'Da'r degwm mawr 'ma, a'r dreth eglws, a'r cwnstebli newydd 'ma, a'r gâts diddiwedd, a'r prishe ishel, fe fydde'n smwythyd i lŵer ohenyn nhw gâl u troi mas o'u llefydd.

MISS EDWARDS (*mewn ychydig syndod*) : O felna, ife ! Ble dysgsoch chi bethe felna, Ann ? Odych chithe am fynd yn un o blant Rybeca ? Fydd dim ishe i chi newid pŵer ar ych gwisg, ta beth. Ma plant Rybeca i gyd am droi yn hen wragedd.

ANN JONES : Tewch, Miss Edwards fach ; ma'n ysbryd inne, fel y gwelsoch chi ginne, yn lled ishel heddy. W i'n timlo dros y ffermwyr, ag yn gwbod, ar yr un pryd, nag ŷn nhw ddim yn mynd eti ddi yn y ffordd ore i gâl gwared o'u trwblon.

MISS EDWARDS : Ma arna i ofon ych bod chi, Ann, yn gwbod mwy nag ŷch chi'n folon adde. 'Dyw Jac Hughes ddim yn dod at y tŷ 'ma mor fynych heb weyd tipyn o'r hanes tho chi.

ANN JONES : O, Miss Edwards fach! 'Dw i'n gwbod dim mwy na'r marw am Rybeca drw Jac Hughes. Yn wir, 'dyw e ddim yn poeni ben ffordd hyna, am wn i.

MISS EDWARDS : Mi gweles i e ddo gyda doi hen lanc go scaprwth u golwg, a wir, 'd ôn i ddim yn lico'r olwg 'nath e i hunan arna i. Mi wedodd rwbeth na ddylse fe, hefyd, ynghylch y degwm wrth nhad llynedd. 'Ma i dad e i hunan yn hiddu gwell mab, Ann, a 'dw i ddim am i weld e'n fynych obothtu Gelliwernen 'ma hefyd. W i am i chi gâl rhywun gwell na hwna i ddod at y tŷ hyn.

ANN JONES : Gwell i ni adel i enw fe lle ma e'n awr, Miss Edwards. W i'n meddwl, 'da llaw, i fod e'n fil gwell dyn na'i dad, beth bennag am dad . . .

(*Y Ficer yn dod i mewn.*)

MR. REES : Bore da, Miss Edwards. (ANN *yn tynnu at y drws.*) 'Dôs dim ishe i chi gilo, Ann. A 'da llaw, ma gen i air bach i ofyn i chi—beth ŷch chi'n feddwl am y wlad 'ma 'nawr ? Dyma i chi ddiwedd gwaith y Disenters, ferch. Ddysgson nhw'r bobol ariod i ufuddhau i'r gyfreth, a thalu parch i'r sawl ma parch yn ddiledus. A dyma'u cynnhïa nhw'n dod miwn iddyn nhw yn Shir Gâr.

ANN JONES : Ma pethe'n go dda arnoch chi, Syr, ond ŷn nhw, hyd yn hyn ?

MR. REES : Odyn, Ann, ond pwy ŵyr beth all ddigwdd mwn diwarnod ? 'Dyw'ch pregethwyr chi ariod wedi dysgu'r deg gorchymyn i'r bobol. Dyma chi'ch hunan ; merch y Wern Whith ŷch chi, ag o whith y mynnwch chi fynd ; hibo'r eglws i lawr i hen gapel Tynewydd o hyd. Ond wedi mynd yno, drw'r tew a'r tene, chlywsoch chi ddim sôn am y Deng Air Deddf yno , do fe ?

ANN JONES : Mi glŵes beth gwell na'r ddeddf yno, Syr.

MR. REES : Falle hynny ; ond ma'r ddeddf i ddod o flân yr efengyl, Ann. Ar y ddeddf ma'r efengyl yn sefyll.

ANN JONES : Dyna chi, Syr ; wyddwn i ddim o hynny ; ond dyna, wn i fawr i gyd, Mr. Rees.

MR. REES : Dyna'r gorchymyn, "Na ladrata." 'Tyse hwna wedi câl i ddysgu a'i ddysgu i'r wlad 'ma, mi fydde ma lai o ddwgyd a distrwa eiddo pobol erill na sy.

ANN JONES : Falle bydde fe, Syr. Ma ishe'r gorchymyn yna ar rwrai heblaw plant Rybeca, medden nhw.

MR. REES : Ar bwy, Ann ?

ANN JONES : Maddïwch i fi, Syr, ond w i'n meddwl na nele fe fawr o ddrwg i'r rhai sy'n i adrodd e fynycha idd i gofio fe withe.

MR. REES (*yn syn*) : Y ferch! Beth yw'ch meddwl chi ?

ANN JONES : Na'r gorchymyn sy'n i ddilyn e, "Na ddwg gam-dystiolaeth yn erbyn dy gymydog." Ond esguswch fi, Syr, am roi swllt am swllt fel hyn. W i'n nabod yn lle fynycha, a w i'n gweld hefyd ma nid fan hyn ma'n lle i 'nawr. (*Yn myned allan.*)

MISS EDWARDS : Ma merch y Wern Whith wedi gneud yn o dde â chi, Mr. Rees, o'r diwedd. Chaiff neb fawr yn spâr 'da Ann.

MR. REES : Hen groten neis yw hi, er hynny. Ych chi'n gwbod ble ma i châl hi, bob amser. Ofynna'i iddi byth 'to am ddod i'r eglws.

MISS EDWARDS : Na, 'dyw gwŷr yr Hen Gapel byth yn troi i'r eglws.

MR. REES : Nagyn, mi wn ; a ma'u gwinidog nhw fel llew yn erbyn y degwm a'r dreth eglws, byth a hefyd. Dynon fel hyn sy wedi dechre cynhyrfu'r wlad.

MISS EDWARDS : Wel, shwd buws hi arnoch chi 'da'r ffarmwyr ?

MR. REES : Gweddol, yn wir i chi, ar y gore. Ma rhai ohenyn nhw'n rhesymol u gwala. 'Dôs dim ishe achwyn ar Hughes, Tyisha, nag ar Jones, y Durclawdd Fach, nag ar Williams, Brynwthan, nag ar Dafis, Clochrïe. Ma nhw'n folon i bopeth sy'n deg.

MISS EDWARDS : Da iawn bod rhwrai fel hyn.

MR. REES : Fe synnes dipyn at wr Penlwyngwydr. Odd e dipyn yn ffyrnig yn erbyn y degwm newydd 'ma, ag yn erbyn treth newydd y tlodion. Wedodd e fawr tho i am y cwnstablied, ond ôdd e'n ofni y bydde hi'n ddrwg yn y man o achos y ffyrdd, ag o achos y gâts. Odd e lawr yn drwm ar Mr. Goring, ag ar ych tad, a cheso inne ddim bod yn rhydd 'dag e, heb grasad neu ddwy. Arnon ni y bydd y bai, medde fe, os eiff hi'n dyrfe a llyched 'ma. 'Dyw e i hunan ddim am neud dim yn erbyn y gyfreth, wrth gwrs ; ond ma e'n ofni fod 'na rwrai sy am gymryd popeth yn u llaw u hunen, a hynny cyn hir.

MISS EDWARDS : W i'n gobitho na 'na nhw, ddim niwed i nhad, ta beth. 'Dyw e fawr o gownt y dyddie diwetha 'ma. Chododd e ddim o'i wely heddy, a ma mam ar y llofft yn i dendo fe trw'r bore. Ma mwy yn pwyso ar nhad na ma neb yn feddwl. Os, yn wir, ma byd o ofid ar nhad, wy'n gweld. Ond shwd buws hi arnoch chi tua'r Allt Fawr, Mr. Rees ? 'Dôs gen i fawr o gewc ar Elias Jones, ma'n rhaid i fi weyd.

MR. REES : Wir i chi, ma Elias Jones, fel Ann ; ŷch chi'n gwbod ble ma i gâl e. Thriiff e ddim dangos dwy wyneb i chi, ware teg iddo fe. On ni gyd yn i châl hi'n ddidrugaredd 'dag e, o'r top i'r

gwilod. Parsel o sgowndrels ôn ni gyd, yn marchogeth y plwyf i farwoleth. Odd dim dofi ar i dafod e. Mi tries e âg apêl Mr. Johnes, Dole Cothi, at y Cymry fel pobol grefyddol, ond mynd yn fwy dros ben llestri ôdd e o hyd. Fe fuws unwaith bron a tharo llw, ond mi cofies i e i fod e'n ddiacon yn Sardis, Llanedi, a mi gadwodd well comand ar i dafod wedyn. Ond eto, tiru fynne fe, hyd y diwedd, fod ishe newid mawr ar bethe, a na ddele dim trefen ar Lannon heb angladd ne ddwy.

MISS EDWARDS : Clywwch chi'r dyn ynfyd!

MR. REES : Wel, wn i ddim beth sydd i ddigwdd, ond cadwch y pethe hyn orwth ych tad. Falle eiff y storom hibo heb iddo fe wbod dim am deni.

MISS EDWARDS : Y dynon ifenc 'ma sy arna i fwya o ofon. 'Dôs wbod yn y byd beth 'na nhw, unwaith y dechruan nhw.

MR. REES : Chlywes i neb ohenyn nhw'n gweyd fawr, hyd yn hyn, os nag ŷn nhw'n gwitho o'r golwg. Mi ddala i i gredu 'to, Miss Edwards, na fydd yn Llannon fawr neu ddim ond swn, a fe allwn odde swn. (*Yn edrych ar ei orior.*) Ma hi'n bryd i finne fynd, wy'n gweld. *Keep your pecker up*, Miss Edwards, a gobithwch y gore. Bore da.

(*Yn mynd allan.*)

MISS EDWARDS : Dyn bach itha piwr yw e, wir. Fe fydde'n drueni iddo fe weld gofid yn i blwyf. Ond ma 'na rwbeth yn gweyd tho i ta gofid weliff e ; ond w i'n ofni—ofni—na fydd i ofid e ddim byd—ddim byd—at ofid—y nhad. (*Yn myned allan.*)

Llen.

Golygfa 2.

[*Ffair Llandeilo Fach. Standin wlanen a standin lestri coed yn y golwg, a dwy wraig mewn peisiau a bedgynau, a sholau bach, a chapiau Cymreig, y tu ol iddynt. Y mae'n tynnu at hanner dydd.*]

BETSI HUGHES : Ma'r hen ffair fach 'ma, Dafydd, yn mynd yn llai, o flwyddyn i flwyddyn. Fe weles i 'ma sgorodd o dda a moch a chyffyle cyn hyn, a channodd o wŷr a gwishon oddyma hyd Ddantwyn ; ond wela i ddim 'ma heddy ond rhyw bipin shew draw fanco, a rhwbeth ma'n nhw'n galw "*Down in the coal mine*" arno fe, a rhw gwplach o foch nes yma, a'r ddwy standin hyn. Y gwir wedodd Shini Bach y Gwriddyn—y bydde raid dod â channwll liw dydd, cyn hir, idd i gweld hi.

DAFYDD HUGHES : Wir i ddyn, ma hi dipyn yn llai nag y gweles i ddi, Betsi. Popeth yn mynd shag i lawr wela i, y dyddie hyn.—Ond beth nethoch chi o'r ddoi fochyn ? W i'n gweld ych bod chi wedi câl gwared ernyn nhw.

BETSI HUGHES : Nes i ddim cystled, wir, Dafydd, âg ôn i wedi feddwl. Dwy bunt yr un geso i am denyn nhw, ag ôn nhw'n gnaps mawr, a fe fyddan yn barod i'r gilleth ymhell cyn Yndolig. Tynn iawn ôn nhw i roi prish i fi, a fe ffiles yn deg â châl mwy na dwy bunt yr un.

DAFYDD HUGHES : Yr argol annwl, Betsi! 'Dyw hynny ddim prish y blawd.

BETSI HUGHES : Chydig o flawd geso nhw, Dafydd, ond y mish diwetha. Falle galle hi fod yn wâth, yn diwedd. (*Yn nesu at y standin lestri coed.*) Dyma stwce bach tidi, Dafydd ; ond 'dôs dim ishe stwce arna i, ar hyn o bryd. Wir, dyma ffiole yn iawn, ie, wir i ddyn! Beth ŷch chi'n ddala am y ffiole 'ma, wraig fach ?

GWRAIG Y STANDIN : Grot yr un, mam.

BETSI HUGHES : Beth, beth ? Thales i ariôd fwy na chinog, neu, ar y mwya, ddwy ginog, am ffiol. Fe ddŵan am dair, os bosib ?

GWRAIG Y STANDIN: Na ddŵan, yn wir, mam. Ma ddi'n costi mwy na thair idd u gneud nhw.

BETSI HUGHES : Wel, mi â i â hanner dysen, os rhowch chi nhw am ddeunaw.

GWRAIG Y STANDIN : Na, wir, alla i ddim, mam.

BETSI HUGHES : Am beth dŵa nhw, te ?

GWRAIG Y STANDIN : Mi 'na i fargen â chi, mam. Fe gewch yr hanner dysen am swllt a naw. Welsoch chi ariôd shwd rai mawr â hyn.

BETSI HUGHES : Wir i ddyn annwl, ma nhw'n go brud 'da chi, wraig fach, ond wâth i chi na finne doethan am ddim. Dyma chi! Rhowch dair yn ol i fi. (*Yn troi eto at* DDAFYDD, *ac yntau'n gwneuthur*

ysgwydd i gilio.) Dafydd, 'dôs dim ishe i chi drio 'ngwerthu i am yr ail waith. Ych chi wedi bod drw'r bore yn y Ricriwtin, ag wedi câl cymint â sy'n dda i chi. Cadwch chi wrth y nghwt i 'nawr, machgen i. Fe fydd yn rhaid i fi droi pen y ceffyl sha thre yn y fan.—O ie! dan gofio, ŷch chi'n gwbod Dafydd, beth glŵes i fanne, gynne fach ?

DAFYDD HUGHES : Nagw wir. Newydd drwg, fe gynta.

BETSI HUGHES : Ie'n shiwr i chi. Fe glŵes fod Gruffydd Vaughan, yr Inn, a rhyw Ddaniel Lewis, y gwaudd, wedi u cymryd i'r ddalfa, am helpu i dorri Gât y Bolgod. Odd Gruffydd Vaughan yn dipyn o ddyn 'da'r gwŷr mawr, hefyd, er bod pŵer yn gweyd ma hys gyda'r cwn a hei gyda'r cadno oedd i hanes e.

DAFYDD HUGHES : Ma tafarnwr yn gorffod bod felna, Betsi. Dyn piwr iawn y gweles i e bob amser, pan ôn i'n cadw'r farchnad yn Bertŵe ; a fe achubodd y mywyd i, 'dôs dim doi, o afel lladron y *Whit.* Fe welsoch fysedd rhai ohenyn nhw yn y car gen i, pan ddetho i 'nol ; ond mi fuse ar ben arna i 'sen i heb gâl drws agored yn yr Inn, a help Griffith Vaughan, y nosweth hynny. I gefen e sy 'ma, ond mi fydd 'da fi barch hyd y medd i wr yr Inn.

BETSI HUGHES : Sefwch chi 'nawr—odd dim o Vaughan a Lewis i ddod yco at Jac, i Dyisha, prynhawn fory ? Beth wedodd e hefyd ?

DAFYDD HUGHES : Pob parch i Gruffydd Vaughan, ond ma Jac yn saffach heb weld neb o blant Rybeca. Ma gwâd yr hen grwt yn ddigon berw'n barod, Betsi. Hen fyd rhyfedd yw hwn. Gwedwch chi fynnoch chi—mynd o ddrwg i wâth y gwela i e.

BETSI HUGHES : Mi glwes y gân 'na ddigon 'da chi heddy, Dafydd. Dewch i ni fynd i edrych am yn pethe. Fe *eiff* Jac i syndod pan glwiff e am Vaughan yr Inn. Gwneiff, wir. (*Y ddau yn mynd allan.*)

Llen.

Golygfa 3.

[*Gelliwernen, tua chanol nos. Yr un ystafell.* Miss Edwards *yn edrych yn bryderus tua'r llawr pan gwyd y llen.*]

MR. REES (*yn dod i mewn ar frys*) : Miss Edwards annwl! Dw i ddim am ych dychrynu chi.

MISS EDWARDS (*yn bur gynhyrfus*) : W i'n gweld y cwbwl, Mr. Rees. Ma Rybeca *yn* Llannon! O, nhad bach! Beth ddaw ohono fe ? Peth fel hyn sy wedi bod yn y meddwl i, drw'r dydd, ag O! ma nhad yn wâl!

MR. REES : Fe obithwn am y gore, Miss Edwards, ta fel daw hi.

MISS EDWARDS : Ond ble ma nhw'n awr, Mr. Rees ? Odyn nhw ar y ffordd yma ?

MR. REES : Triwch ych gore i fod yn dawel. 'Dyn nhw ddim ar bwys Gelliwernen 'to.

MISS EDWARDS : Ble ma nhw, te ? Odyn nhw'n mynd i ddod lawr yma ?

MR. REES : Mi dria weyd tho chi beth wn i. Fe ddath Tom y ngwas i, miwn, ginne fach, a fe wedodd tho i fod bothdu bedwar neu bum cant o blant Rybeca wrth y Red Lion. Odd e ddim yn shiwr pwy odd neb ohenyn nhw, achos ôn nhw i gyd wedi duo'u gwynebe, ag ôdd y rhan fwya ohenyn nhw ar gyffyle. Odd Rybeca i hunan mwn gwisg wen

i gyd, ag, yn wahanol i arfedd, ar geffyl tywyll. 'Dôdd no ddim idd i glwed ond canu cyrn a sithu, er nag ôn nhw'n sithu at ddim byd yn benodol. Ma nhw'n gwbod nag ôs neb gatre yn y Plas, ond y rhai sy'n carco'r lle.

MISS EDWARDS : W i'n gweld pwy fydd yn rhaid dala'r storm. Nid Mr. Goring, ond—y nhad! O, nhad bach! Beth 'na i, Mr. Rees annwl ? Ma mam gyda nhad ar y llofft, a dw i ddim am weyd dim wrth un ohenyn nhw. Fe alle fod yn ddigon i nhad.

MR. REES : Cymerwch bethe gam bwyll, Miss Edwards. 'Dyn nhw ddim yn gwbod 'to beth 'na'n nhw. Ma nhw'n aros am rwrai i ddod etyn nhw, o Fynydd Sylen a manne erill, cyn gnân nhw ymosodiad ar unrhw le, a falle ma sha Phontarddyles yr ân nhw, i ddial am fod Vaughan yr Inn yn y ddalfa.

MISS EDWARDS : W i felsen i'n specto, ar hyd y dydd, i ble'r ân nhw. 'Rŷch chi a finne'n gwbod fod yn wâth gan bŵer o'r ffermwyr ma am y nhad nag am Mr. Goring. Ma'r Sgweier yn ddigon pell fynycha, a nhad sy'n gorffod godde u tafode nhw o hyd. A *fe* fydd raid dala ergid y storm hefyd, cyn y bore, gewch chi weld.

(Twrw cyrn canu ac arfau yn dynesu.)

MR. REES : Ma pobol Mynydd Sylen wedi dod! Ne ma plant Rybeca Llannon wedi penderfynu drostyn nhw u hunen!

MISS EDWARDS : O, Mr. Rees! Nid i'r Bont y ma nhw'n mynd. Beth newn ni ? O, beth newn ni ? Gwell i ni fod heb y gole 'ma. (*Yn ei ddiffoddi.*) Ma nhw'n ymyl y ty. O, mam annwl! mi fydde'n well iddi hithe roi'r gole mas. O, dyma'r cwbwl yn dod i ben! Dyna ergid drw'r ffenest at nhad ! Dyna un arall ! Mr. Rees bach, beth 'na i ? Beth ddigwyddodd iddo fe, druan ? Gobitho i fod e'n fyw ! Mi â i'r lan i weld!—O, Dduw, arbed! (*Yn mynd allan.*)

MR. REES : Beth alla i neud mewn cês fel hyn ? Tyswn i'n mynd mas etyn nhw, mi fyddwn fel regsyn coch i darw iddyn nhw. 'Dôs 'da'r bechgyn hyn na pharch i Ficer y plwyf na pharch i neb arall. Mi licwn neud rhwbeth hefyd—ond beth ? Ma arna i ofon fod Miss Edwards 'ma yn ddewrach na fi, wedi'r cyfan. Gwyn fyd na ddele'r Dragwns hibo! Dyna ffenest y llofft i lawr, a Miss Edwards yn gweyd rhwbeth.—O'r fileinied! Gobitho na ddalodd hi ddim o'r ergid na! Druan o Edwards! Ma arna i ofon na wel e ddim o'r bore.

MISS EDWARDS (*yn dod i mewn ar frys*) : Dyma'r peth yn union fel y gweles i e, heddy. Fe fuon bron a sithu mam, ond, drw drugaredd, mi

ffilson. A ma'r ergydion yn ffilu â chyrradd nhad yn i wely, diolch i Dduw! er bod rhai yn mynd yn agos iawn ato fe hefyd. Fe ath doi o blant Rybeca i ben y wal o flân tŷ, a ma nhw'n trio u gore i neud pen ar y nhad o'r fan hynny.

MR. REES : Fe fydde'n well i fi fynd mas etyn nhw, Miss Edwards.

MISS EDWARDS : Fe feddyles inne hynny, ar y llofft, ond fe wela na ddaw dim lles o hynny. *Fi* fydd ore i wilia â nhw.

ANN JONES (*yn dod i ddrws yr ystafell*) : Fe sefa i gyda chi, Miss Edwards, ta fel daw hi.

MR. REES : Ych chi'n mynd i berigl mawr, ond y chi sy'n gwbod beth sy ore. Ma'n rhaid gneud rhwbeth, w i'n gweld, ne fe fydd ar ben arnon ni i gyd, ma lle i ofni, cyn diwedd.

(MISS EDWARDS *ac* ANN *yn mynd allan.*)

Y fileinied 'to! Dyna rai ohenyn nhw yn twlu cerrig, cyn bod y merched braidd wrth y drws. Gobitho na chas un o'r ddwy ddim niwed!—A mi glwa un o blant Rybeca'n gweyd rhwbeth. Beth hefyd ? . . . "bywyd i thad ddim gwerth plufyn o flan y gwynt nes bo'r degwm wedi i estwn." Ma nhw'n dafotrydd! Ond ma'r merched dewr na yn dala'r cwbwl. W i'n clywed Miss Edwards yn apelio at u dynolieth nhw, a'u cymdogeth dda

nhw, ag yn gweyd nag yw hi ddim yn weddus i bobol dda Llannon ymosod ar ddyn sy bron â marw yn i wely. W i felsen i'n timlo i bod hi'n cyrradd u calon nhw. Odi, wir, ma hi'n well sharadreg o'r hanner na fi. Cheso i ariôd gyment o ddylanwad â hyn ar dorf. Dir helpo i chalon hi! Daled eti! Wir i ddyn, ma hi'n drech na nhw! W i'n u clwed nhw'n dechre troi shag yn ol. Sithu i'r aer ma nhw'n awr. 'Stim drwg yn hynny—fe geiff Edwards, Gelliwernen fyw heno 'to, w i'n gweld. Ond *near shave* ôdd hi hefyd.

(MISS EDWARDS *ac* ANN *yn dod yn ol.*)

MISS EDWARDS : Diolch i'r Bod Mawr! Ma nhw wedi mynd. Diolch i chithe, Ann, am sefyll gyda fi. W i bron credu fod 'na rwun yna, heno, na sithe o gwbwl ata i, rhag ofon iddo fe'ch sithu chi.

ANN JONES : Alla i weyd dim am hynny, Miss Edwards ; ond w i mor falch a chithe u gweld nhw'n troi bant orwth y ty 'ma.

MR. REES : Mi fyddwch, ych dwy, yn falch i weld y nghefen inne 'nawr. Ma'r wawr bron â thorri, a mi weda i wrthoch chi'ch dwy—Bore da!

(*Yn mynd allan.*)

ANN JONES : Dyn bach tidi yw e, Miss Edwards, ond ma arna i ofon nag ôs fawr calon 'dag e. Gobitho na cheiff e ddim ofon i lun ar y ffordd.

MISS EDWARDS : Dyma'ch cannwll chi, Ann. (ANN *yn mynd allan.*) Mi â inne'n union,—ar ol gweld shwd ma mam—O ! a nhad !

Llen.

RYBECA

ACT III.

Golygfa 1.

[*Ystafell ym Mhenllergaer. Y mae tua hanner awr wedi un ar ddeg o'r gloch y bore.*]

MR. DILWYN LLEWELYN: Wel, 'dyw pethau'n gwella fawr, foneddigion. Mynd o ddrwg i waeth y mae Rybeca a'i phlant. Mi gredais y gwelem ni ddiwedd ar eu hystranciau, wedi'r hyn a ddigwyddodd i blant Cwm Cile, ac wedi dwyn Vaughan yr Inn a'i gyfaill o flaen y llys. Ond gwaethygu y mae pethau, fel y cewch glywed gan y Capten Napier, yn awr.

CAPTEN NAPIER: Mr. Dilwyn Llewelyn! Foneddigion! Nid y Bolgod na'r Gopa Fach sy'n poeni mwyaf ar y gwrthryfelwyr. Eisiau cael gwared o Gât Pontarddulais sydd ar Rybeca, a dyna paham y gofynnais i Mr. Dilwyn Llewelyn eich dwyn ynghyd. Y mae gennyf wybodaeth sicr y gwneir ymosodiad ar y gât neilltuol hon, nos Fawrth nesaf, y chweched o Fedi.

MR. ATWOOD: Gan bwy y cawsoch chi'r hysbysrwydd hwn, Capten?

CAPTEN NAPIER: Mi a'i cefais o wahanol gyfeiriadau. Clywodd cennad a roeswn ar waith yn nhafarn y *Recruiting* y si, i ddechreu; a thrwy yrru

ofn ar Vaughan a'i gyfaill, mi gefais ganddynt hwythau'r manylion am fwriad yr ymosodwyr, hyd y gwyddent hwy am dano, fel y mae'n sicr gennyf fi, Syr, mai doethineb ynom fydd bod yn barod.

MR. LEWIS DILWYN : Pa gwrs fydd yr un goreu inni ei ddilyn, yn ol eich barn chwi, Capten Napier ?

CAPTEN NAPIER : Y mae'r ymosodwyr, Syr, i ddod o gyfeiriad Sir Gaerfyrddin. Fe fydd yno lu mawr ohonynt ; a'm cyngor i ydyw inni gyd-weithredu â Mr. Chambers a Mr. Neville, a'r awdurdodau yn Llanelli, a chwrdd yn ddwy fintai ar Gomin Casllwchwr. Fe ddylai fod gennym gorff cryf o gwnstabliaid o'r ddwy Sir, ac y mae'n bosibl y byddai'n well bod y Dragwns wrth law, rhag i'r gwrthryfelwyr fynd yn drech na ni, wedi'r cyfan.

MR. DILWYN LLEWELYN : Fe ellir trefnu hynny, Capten, yn ddi-drafferth ; ond os gellir gwneuthur heb y milwyr, hynny fydd oreu.

MR. ATTWOOD : Fe allant fod o hyd cyrraedd.

MR. LEWIS DILLWYN : Ie, eu cadw o hyd cyrraedd fydd oreu, yn sicr. Nid oes wybod beth a ddigwydd, os caiff y milwyr y gyfraith i'w dwylo hwy eu hunain.

CAPTEN NAPIER : Y mae'n ymddangos i mi, foneddigion, ei bod o bwys mawr i ni, y tro hwn,

gael gafael mewn un neu ddau o'r *ring-leaders*, Fe ddylem ddal Rybeca ei hun, ar bob cyfrif ; fe ddylem saethu ei cheffyl dani, fel na allo ddianc.

MR. ATTWOOD : Y mae hynny'n sicr o fod yn gwrs doeth a rhesymol. Y mae'n bwysig iawn inni, Capten, ystyried ein cynlluniau yn ofalus, a pheidio â gadael dim i ddigwydd a ddamwain. Ymhle y mynnech ddod i wrthdarawiad â Rybeca a'i phlant ? Ai *ar* y Bont, cyn iddynt neshau at y Tollborth ?

CAPTEN NAPIER : Na, Syr, fy mhlan i, yn awr, yw inni gadw'n llwyr o'r golwg yng nghyffiniau'r *Dulais Glen*, a gadael i'r gwrthryfelwyr ddod i Sir Forgannwg, a dechreu ar dorri'r porth a dinistrio'r tŷ. Yna, wedi iddynt fagu hyder, a thybio nad oes neb i ddod ar eu gwarthaf, fe ddeuwn i lawr arnynt yn sydyn, ac fe'u gorchfygwn, os gallwn, cyn iddynt orffen eu gwaith. Ein hamcan pennaf, fel y dywedais, fydd dal Rybeca ei hun, ac, wrth gwrs, fe fydd hi'n amlycach na neb arall, yn y tywyllwch.

MR. ATTWOOD : Onid gwell fydd inni eu dal *ar* y Bont, cyn iddynt ddechreu o gwbl ar eu mileindra ?

CAPTEN NAPIER : Yr wyf wedi ystyried y cwrs hwnnw'n ofalus, foneddigion, ond yr wyf yn berffaith sicr mai gadael Rebeca i arwain ei phlant at y tollborth fydd oreu at ein pwrpas ni. Y mae mwy o le inni ymguddio, o'r tu ol i'r *Dulais Glen*, a bydd

mwy o le gennym i fanwfro o'i flaen, a gwneuthur ymosodiad effeithiol.

MR. DILWYN LLEWELYN : Yr wyf finnau o'r farn fod Capten Napier yn dilyn y cwrs mwyaf effeithiol, ac nid oes gennyf ond gobeithio y llwyddir i ddal y gwrthryfelwyr mwyaf blaenllaw, fel y gwneler esiamplau ohonynt, ac y gyrrer ofn ar y gweddill. Araf y bu'r rhan hon o'r wlad yn codi o blaid Rybeca, ond y mae plwyfi Llandeilo-Talybont, Llanedi, a Llannon, bellach, yn arwain mewn beiddgarwch a chreulondeb, ac y mae'n llawn bryd darostwng anghyfraith a thrais y parthau hyn. Pa bryd y trefnir i gwrdd yng Nghasllwchwr, Capten ?

CAPTEN NAPIER : Dywedwn ddeg o'r gloch, Syr ; ac fe drefnir yr un adeg â Mr. Chambers a Mr. Neville.

MR. DILWYN LLEWELYN : Diolch yn fawr i chwi, Capten Napier. Yr wyf yn deall bod *luncheon* yn aros i ni, foneddigion. (*Pawb yn mynd allan.*)

Llen.

Golygfa 2.

[*Wrth Gelliwernen, fel o'r blaen. Y mae tua deg o'r gloch y nos.*]

ANN JONES : Fe fydde'n well gen i, Jac, ta ti'n cadw draw o 'ma, ar hyn o bryd. 'Dôdd 'ma fawr blonrwydd i fi ddod mas atot ti o'r blân, fel yr wyt ti'n gwbod, ond ma'ma lai 'nawr, fel y gallet ti ddishgwl.

JAC HUGHES : Pam hynny, Ann ?

ANN JONES : Paid di â meddwl, Jac bach, os ody dy dad yn ddyn wrth fodd Mr. Edwards a'r Ficer, nag ôs 'ma rwrai'n specto i fab.

JAC HUGHES : Chlwest ti ddim peth felna, Ann ?

ANN JONES : Ma Miss Edwards 'ma wedi twlu hint i fi, fwy nag unwaith ; ond 'dw i ddim yn dangos y mod i'n diall i hergid hi. Ond tysen i yn dy le di, agorswn i ddim o ngene'r nos o'r blân. I rywun odd yn dala sylw, nid llaish Rybeca odd 'na, ond llaish Jac Hughes, Tyisha, mor glir â'r gloch.

JAC HUGHES : Chidig iawn wedes i, drw'r cwbwl.

ANN JONES : Mi wedest ormod. 'Dyw'r Ficer yn ame dim, falle, ond ma arna i ofon Miss Edwards.

JAC HUGHES : Paid â phoeni, Ann fach ; fe eiff hyn hibo 'to, heb i neb fod ddim yn gallach. Dal di dy dafod, a dyna bopeth yn iawn.

ANN JONES : Na, wir, Jac : ma want arna i withe i ddod yn ferch gyfoethog, a hynny mwn diwarnod. Dishgwl shwd shawns sy 'da fi i ennill y pum can punne 'na am glapan arnot ti!

JAC HUGHES : O, Ann!

ANN JONES : Fydde dim ishe i fi fod yn forwm yn Gelliwernen, wedyn. Ma'r arian yn yn llaw i, ond i fi adel y gath o'r cwdyn.

JAC HUGHES : Paid â whalu dy ddwli, fel hyna Ann. Ma 'da ti fwy na hyn o olwg arna i, os bosib.

ANN JONES : Wn i ddim, yn wir, Jac, faint o olwg sy 'da fi arnot ti. Fe wn i hyn—dôs 'da ti fawr golwg arna i, ne fe rindet arna i'n dy gynghori di i bido â rhoi dy fysedd yn y tân. Pam ma rhaid i ti fod ar y blân gyda phethe fel hyn ? Wela i ddim ond danjer ar y ffordd wyt ti erni ddi 'nawr. Ma dy genderwydd ishws wedi mynd deni, a mi gei di weld y bydd dy ddiwedd dithe yn wâth na dy ddechruad os na ofali di. Ddaw anware-teg byth â ware-teg i'r wlad.

JAC HUGHES : Wyt ti'n cal hwyl, Ann. Trueni na fyddet ti'n ddyn. Mi nelet brygethwr camp.

ANN JONES : Gad hi fanna 'nawr, Jac, a grinda di ar beth w i'n drio weyd tho ti. W i'n gweyd gwirionedd a sobrwydd tho ti. Ma'r Llwodreth yn Llunden am neud 'i gore i ddod i gwrdd â chi. Fe gewch bopeth sy'n deg, ond i chi fod yn amyneddgar.

JAC HUGHES : Cawn, spo, pan ddaw'r mil blynyddodd.

ANN JONES : Na, fe gewch cyn hynny, ond i chi fod yn gall. Dyna nhw wedi hala'r Mr. Hall 'na lawr i glwed ych achwinion chi. Yn shiwr i ti, ma nhw am symud cam.

JAC HUGHES : Felsen nhw ddim yn gwbod yn barod beth sy o le! A dyna'r Hall 'na—beth yw e da ? Ma e'n mynd o le i le fel y *Coach Mawr*, heb aros digon i ddiall dim yn iawn. A shwd gall Sais fel hwna ddiall o gwbwl, tyse fe'n aros wthnos ymhob man ? Cythrymied yw'r Sison 'ma, Ann, shag aton ni'r Cymry. 'Dyn nhw ddim fel sen nhw am yn diall ni.

ANN JONES : Ma peth gwir yn hyn, Jac ; ond fe fydde'n well i chi neud y gore o Mr. Hall na thorri'r gyfreth, a thorri cymeriad yr hen wlad, ar yr un pryd.

JAC HUGHES : Torri'r gyfreth! Ma rhwrai erill yn gallu gneud hynny hefyd. Dyna i ti'r Capten Napier 'na o Bertŵe, y cebyst shag yw e!

Fe ath i Gwm Cile, a fe ymosododd ar Henry 'nghender, heb ddangos 'i warant, ag os cas e ergid neu ddoi yn ol, chas e ddim hanner digon am beth nath e—fe a'i gwnstablied cythrel.

ANN JONES : 'Dôs dim galw am iaith felna fan hyn, Jac.

JAC HUGHES : Ma 'ngwad i'n berwi yn erbyn y milgi main. Dyna shwd set ma'r awdurdode yn u hala lawr i ofalu am denon ni. Parsel o hen estronied, fel hyn, i lanw pob lle o bwys, ag i fyw ar hufen y wlad. 'Dôs dim rhyfedd u bod nhw'n credu nag yw'n hanner ni ddim ond penbwlied ; a ma mwy na hanner y bai arnon ni am u godde nhw. Ond gad i fi gal y nghyfle—fe fydda i'n sgwâr â'r Capten y diain na 'to, cyn gwelwn ni'r lliad newydd.

ANN JONES : Mi wela nag yw sharad rheswm â ti, Jac, yn gneud dim ond dy ferwi di'n rhagor. Ffordd heddwch fydd y ffordd ore i ti, gei di weld. Ma dyn sy â'i law yn erbyn pawb yn shiwr o gal llaw pawb yn i erbyn e, cyn hir. A w i'n meddwl i bod hi'n llawn bryd i ti a phwy bennag sy 'da ti, i rindo ar ddynion sy'n dymuno'ch lles chi—dynon fel Price, y Cwacer, o Gastell Nedd, a'r rhai fuws gydag e yng Nghaerfyrddin a llefydd erill. Nid estron yw Mr. Price, ond Cymro glân, gloyw, a ma'r dynon odd

gydag e yn ddynon o bwys i gyd : fe 'nân u gore i chi yn y manne sy'n werth i chi ennill u clust nhw.

JAC HUGHES : Ma Mr. Price, yn ol dim a glwes i, yn ddyn sy'n awyddus am roi ware teg i ni, ag yn ddyn sy'n diall shwd ma hi arnon ni ; ond fe ddylse fod wrth i waith wthnose'n ol, nid 'nawr. Ma'r wlad yn ffagal, erbyn hyn, a 'dôs neb all ddiffodd y fflame. A pheth arall, 'dôs dim son am fynd â'r swjwrs yn ol o Garfyrddin a Bertŵe, a shwd gall Rybeca roi i harfe lawr heb hynny ? Y Dragwns a'r swjwrs sy wedi ffyrnigo'r wlad, Ann. Pam nag ele'r Cwaceriaid at y Llwodreth, ar y dechre, i rwystro cynhyrfu Shir Gâr fel hyn ?

ANN JONES : 'Dyw hi ddim yn rhy ddiweddar 'to, Jac, i ddod â phethe idd u lle, heb ragor o dwrw a thywallt gwâd.

JAC HUGHES : Ma arna i ofon i bod hi, Ann. Ma'n rhaid iddi fynd yn wâth, erbyn hyn, cyn daw hi'n well ; a fe gei glwed ar ol nos yfory, am bethe gwâth nag a welest ti hyd yn ôd wrth y lle 'ma.

ANN JONES : O, Jac! Paid â bod yn ynfyd!

JAC HUGHES : Ma'n rhaid cal Gât Pontarddyles lawr. Ma hi wedi sefyll yn rhy hir yn barod.

ANN JONES : Jac annwl! W i'n gweld i bod hi ar ben ar yn rhybyddion i. W i'n gweld y dilyw tân yn dod, a ma e'n dod fel cŵad arnot ti, Jac. Os

ma ti eiff i'r Bont, nos yfory, ma rhwbeth yn gweyd tho i na welwn ni ddim o'n gilidd fel hyn 'to. Jac bach, w i wedi gweyd pethe llym wrthot ti, lwer o withe, ond wyddot ti ddim faint o olwg sy gen i arnot ti, wedi'r cwbwl. Ag er y mod i'n trio 'ngore i dy gadw di mas o ddanjer, ma rhwbeth yn y nghalon i am neud i fi gredu dy fod yn gneud y peth sy'n iawn. Ma 'mhen i a 'nghalon i wedi ffrio pŵer o dy blegid di, yn ystod y pythownos diwetha 'ma ; ond os ma ti fydd Rybeca, nos yfory, Jac, w i'n ofni yr eiff Capten Napier tuhwnt i ti, a na weliff Tyisha na Gelliwernen mohonot ti byth mwy.

JAC HUGHES : Cadw dy galon rhag mynd i dy sgidje, Ann fach. Fe ddwa i drwyddi â 'nghrôn yn iach, gei di weld. Ag os na 'na i, O, Ann fach!—fe fydd Jac Hughes yn driw i Ann Jones tra bo anal yn i gorff e. (*Yn ei chofleidio.*)

ANN JONES : Ma hi'n bryd 'nawr i fi fynd miwn, Jac—a mwy na phryd. Ffarwel, Jac annwl—am byth ?

JAC HUGHES : O nage, Ann, nid am byth!

ANN JONES : Ffarwel, Jac.

JAC HUGHES : Nosweth dda i ti, Ann. (*Y ddau yn mynd allan gyferbyn a'i gilydd.*)

Llen.

Golygfa 3.

[*Wrth Dollborth Pontarddulais, tua hanner awr wedi deuddeg o'r gloch y nos. Llais utgyrn a llef geiriau yn y pellter. Yna, ymhen ychydig amser, swn chwilfriwio'r tollborth. Yna, yn ddiymaros, swn saethu mawr o bob tu, a llefain; o'r naill du:* "True till death, Rybeca!" *ac o'r tu arall:* "Aim at the ring-leader's horse!" *Gweiddi a saethu enbyd eto. Wedyn, encyd o dawelwch, mwy neu lai. Heddgeidwaid, o dan arweiniad y* Capten Napier, *yn dilyn gwyr bucheddol i mewn.*]

CWNSTABL 1: Dyma'r arweinydd, Syr. Y mae un ohonom yn dal ei geffyl yn ddiogel, Syr.

CWNSTABL 2: Dyma ddau eraill o'r rhai blaenllaw, Syr. Ni ddigwyddodd llawer o niwed i un o'r ddau hyn, Syr.

CAPTEN NAPIER: Felly; ond y mae Rebeca wedi ei saethu drwy ei fraich dde, mi welaf. Y mae rhywrai ohonoch yn gofalu am ein ceffylau?

CWNSTABL 3: Oes, Syr, ac y mae'r gwrth-ryfelwyr i gyd ar ffo, Syr.

CAPTEN NAPIER: A ddaliwyd ychwaneg ohonynt?

CWNSTABL 3: Do, Syr, bedwar arall yn Sir Gaerfyrddin, y tuhwnt i'r Bont, Syr.

CAPTEN NAPIER : O wel, fe ofala Mr. Chambers am eu dwyn hwy i Lanelli.

MR. DILWYN LLEWELYN (*yn dod i mewn*) : Fe lwyddasom o'r diwedd, Capten.

CAPTEN NAPIER: Do, Syr, cystal, os nad gwell, na'n disgwyl.

MR. LEWIS DILWYN : Y mae'n rhaid i ni eu dwyn i Abertawe cyn gynted âg y medrwn ni, Capten Napier. Fe ddylid anfon am y Dr. Bird at y dyn ifanc yma, cyn y bore. Y mae wedi ei chael hi'n enbyd.

DAFYDD JONES (*hen het wellt ryfedd yn cuddio hanner ei wyneb du, a rhuban goch yn hongian dros ei warr*) : Odi'r cythrymied ; a ma e'n well dyn na'ch hanner chi, a gweyd y llia.

LEWIS DAVIES : Taw, Dafydd.

MR. LEWIS DILWYN : Druain ohonoch chwi'ch tri yn gweithredu mor ffol. Pe baech yn amyneddgar fe gai'ch achwynion wrandawiad teg.

DAFYDD JONES : Pan fydde'r lliad newydd yn llawn, spo.

LEWIS DAVIES : Taw, 'r mwlsyn.

MR. DILWYN LLEWELYN : Fe ddylem wybod pwy sydd gennym, hefyd. Beth yw'ch enw, chwi ?

LEWIS DAVIES : Lewis Davies, Syr.

MR. DILWYN LLEWELYN : O ba le ?

LEWIS DAVIES : Tirbach, Llannon, Syr.

MR. DILWYN LLEWELYN : A chwithau ?

DAFYDD JONES : Dafydd Jones, yr Hen Goitre —balch o'i enw a'i waith.

MR. DILWYN LLEWELYN : 'Does yma fawr o le i falchter.

DAFYDD JONES : Mae'r wawr ar y Mynydd Du.

MR. DILWYN LLEWELYN (*yn troi at* JAC HUGHES) : A phwy sy fan hyn ?

LEWIS DAVIES : Mi weda i tho chi, foneddigion.

DAFYDD JONES : Beth sy arnot ti, Lewis ? Wyt ti am ddod yn rhydd fel hyn ?

MR. DILWYN LLEWELYN : Byddwch yn ddistaw, ddyn ifanc! Beth yw enw'r llanc yma, yng ngwisg Rybeca ?

LEWIS DAVIES : Jac Hughes, Syr—mab Tyisha, Llannon.

MR. DILWYN LLEWELYN : O wel, o Lannon i gyd ; o bentre'r terfysg.

DAFYDD JONES : A'r dydd newydd.

MR. DILWYN LLEWELYN : Y mae'n bwysig i chwi eu chwilio, Capten, a gweld beth sydd arnynt.

DAFYDD JONES (*yn troi ei logellau allan*) : Caps a phwdwr—dyma nhw! Dyna'r cwbwl sy gen i. Ewch â nhw ar ol 'y ngheffyl i, y lladron mellt-igedig!

LEWIS DAVIES (*yn bur ddiniwed*) : Dyna sy gen inne, hefyd, gwitha'r modd.

CAPTEN NAPIER : Y mae'n rhaid i ni chwilio Rybeca drosom ni'n hunain. (*Yn troi tipyn ar* JAC HUGHES, *sydd ar lawr drwy'r amser.*)

JAC HUGHES : O, 'mraich i! O'r dilyw tân!

CAPTEN NAPIER : Caps a phowdwr eto—ddigonedd! A dyma rywbeth arall—Notis Rybeca! (*Yn darllen*)—"*Daniel Jones of Brynmaen—meet us at Llannon, on Wednesday night. If you don't, this will be your last notice.—Beca.*"

MR. DILWYN LLEWELYN : Hwn yw'r *ring-leader* o'r dechreu, y mae'n amlwg.

CWNSTABL 4 (*yn dod i mewn ar ffrwst*) : Y mae'r milwyr wedi cyrraedd y *Recruiting*, Syr!

MR. LEWIS DILWYN: Trwy drugaredd, nid oes eisiau mo'u gwasanaeth, ac y mae'r Hughes yma, druan, yn galw am help y meddig.

JAC HUGHES : Ma'r—wawr—ar—dorri!—O'r—hen—fraich—'ma!

MR. LEWIS DILWYN : Gadewch i ni gychwyn yn ein holau yn ddiymdroi.

CAPTEN NAPIER : Gwnstabliaid, sicrhewch y tri wŷr hyn. (*Y gwyr bucheddol a* CHAPTEN NAPIER *yn mynd allan. Y cwnstabliaid a'u carcharorion yn dilyn.*)

Llen.

Golygfa 4.

[*Yr un ystafell yng Ngelliwernen. Y mae tuag un ar ddeg o'r gloch y bore.*]

MR. REES : Bore da, Miss Edwards! Dyma ddyddie sobor!

MISS EDWARDS : Sobor iawn, yn wir!

MR. REES : Chydig feddyles i 'riôd y dele Jac Hughes i hyn. Odd gen i dipyn o olwg arno fe, hefyd, a mwy, falle, oblegid i dad. Druan o'r hen wr!

MISS EDWARDS : Ma hi'n ddyddie tywyll iawn ar Ddafydd a Betsi Hughes ; ond ôn i ddim yn credu cystled â chi am Jac u mab nhw. Bachgen itha plaim odd e, w i'n folon adde, ond ôn i'n credu bod i fys e yn y bustil, ys cetyn.

MR. REES : O wel, ôn i ddim yn credu dim shwd beth. Ag i feddwl ma fe ôdd Rybeca!

MISS EDWARDS : Fe ôdd Rybeca yma yn Gelliwernen ; 'dôs dim doi am hynny. Mi gredes i ma fe odd hi, y nosweth hynny, a mi dries dacso Ann ;—ond ôdd Ann yn meddwl i bod hi'n rhy hen i fi.

MR. REES : Wel, fe ddath Jac Hughes i ofid, a fe ddaw i fwy o ofid 'to. Ma'r awdurdode'n pender-

fynu dod lawr yn drwm ar rai o'r gwrthryfelwyr, gewch chi weld.

MISS EDWARDS : Druan o Ann! W i'n gwbod fod 'da hi olwg fawr ar y llanc drwg.

MR. REES : Wêl hi ddim ohono fe am spel, 'nawr, ta beth, os gwêl hi e byth.

MISS EDWARDS : Fydd hi ddim cynddrwg â hynny arno fe, os bosib hefyd—bydd hi ?

MR. REES : Synnwn i fawr—a ma'r hyn sy'n digwdd, o ddydd i ddydd, yn gneud pethe'n wâth.—Dyna'r nosweth y torrwyd Gât y Bont, fe ddalodd rhai ar y cyfle i roi gwair Mr. Chambers ar dân ; a dyna Gât Pont y Sanders wrth Gydweli wedi thorri lawr, y nos o'r blân. Ond dyma'r hanes gwitha o'r cwbwl—am Gât yr Hendy!

MISS EDWARDS : Chlwes i ddim byd. Beth am deni ?

MR. REES : Wedodd ddim o Ann wrthoch chi ?

MISS EDWARDS : Wyr hi ddim, yn shiwr i chi. Ma Ann yn cadw miwn yn ddierth, oddiar pan ddalwd Jac Hughes. 'Thwllodd hi ddim o'r drws, ddo nag echdo.

MR. REES : O wel te, mi weda'r hanes tho chi. Fe ddath Rybeca at Gât yr Hendy, bythdu ddoi o'r gloch, bore ddo, a fe ddachriodd hi a'i phlant dorri'r

Gât, a chario celfi'r hen wraig Sara Wiliam mas idd u llosgi nhw ; a fe wedson wrth Sara am fynd, a mindo ar i hened am bido dod 'nol. A fe âth drwodd i'r tŷ 'rochor draw'r hewl, a fe fynne gâl 'da John Thomas ddod 'da hi i roi'r tân mas. Fynne John Thomas ddim mynd 'da hi, a fe driodd i chadw hithe rhog mynd 'nol. Ond mynd nath hi, a phan ddâth hi at dŷ'r Gât, a gweld i thipyn celfi ar dân, alle hi ddim dala heb widdi : " 'Wy'n ych nabod chi! " Ond os do fe, gyda bod hi'n gweyd y gair, dyma ergid trw i chalon hi!

MISS EDWARDS : O, Mr. Rees, Mr. Rees!

MR. REES : Hen wraig benstiff iawn ôdd hi, fel ŷch chi'n cofio. Fe allech feddwl, bob amser, ta hi odd bia'r Gat.

MISS EDWARDS : Laddson nhw ddim oheni, do fe ?

MR. REES : Do, druan! Fe fu farw, bron felna!

MISS EDWARDS : Druan o Sara! Beth fydd diwedd hyn 'to ?

MR. REES : Ma'n debig i bod hi wedi câl mwy nag un rhybudd i bido casglu rhagor o dolle, ond mi fynne hithe ddala at i dyletswdd hyd y diwedd.

MISS EDWARDS : Ware teg iddi, druan! Ond rhai o ble ma nhw'n feddwl ôdd plant Rybeca'r tro hyn ?

MR. REES : Rhai o Lannon a rhai o Lanedi a Llangennech, yn ol pob tebig, a'r rhan fwya ohenyn nhw o Lannon.

MISS EDWARDS : Llannon 'to ! Wel, wel ! Fe fydd yn wâth ar Jac Hughes oblegid pethe fel hyn, achos fe, yn ol dim w i'n ddiall, gynnodd y tân yn y plwyf bach hyn. Tân dierth ôdd y tân i ddechre, a wy'n gwbod, erbyn hyn, pwy ôdd y ddoi hen lipryn dierth weles i 'da Jac Hughes yn y pentre, bythdi bythownos yn ol. Rhyw hen faledwr, sy'n mynd dan yr enw Dai'r Cantwr, ôdd un ohenyn nhw, ag un o rapscaliwns gwitha'r wlad i gyd ôdd y nall— Shoni Sgubor Fawr ma nhw'n i alw fe.

MR. REES : Ma Jac Hughes, mi wela, wedi bod mewn cwmpni drwg. Ond nid un felna odd Jac yn arfedd bod.

MISS EDWARDS : Fe allwch chi fentro ta rhyw ddynon werw felna sy wedi bod wrth Gât yr Hendy. Alla i ddim credu, Mr. Rees, ma un o ffarmwyr Llannon laddws Sara William.

MR. REES : Ma hi'n anodd gwbod, Miss Edwards. Ffarmwyr Llannon odd flaena wrth Gât y Bont.

MISS EDWARDS : Itha gwir, Mr. Rees. Dyna anodd yw gwbod beth neiff dynon gwirion pan ân nhw'n gyndirog, ontefe ?

MR. REES : Ie'n wir, Miss Edwards. Ma'n dda 'da fi ddiall fod ych tad yn well, wedi'r garw i gyd.

MISS EDWARDS : Odi, ma e'n dod drosti 'to, er gwitha popeth,—gam bwyll.

MR. REES : O, fe ddaw diwedd cyn hir ar y pethe hyn hefyd, a fe geiff ych tad lonydd mas law, heb fod neb yn trio dwgyd i fywyd e.

MISS EDWARDS : Ceiff, gobitho, er y bydd ol yr ergydion ar Gelliwernen am spel.

MR. REES : Ma hi'n bryd i fi droi sha thre. W i'n diall ma yng Nghardydd y bydd Jac Hughes a Dafydd Jones a Lewis Davies yn sefyll u prawf—sha diwedd y mish nesa. Gwedwch wrth Ann y mod i'n cofio am deni. Bore da, Miss Edwards.
(MR. REES *yn mynd allan.*)

MISS EDWARDS : Weda i ddim wrth Ann am Gât yr Hendy. Ma digon o ofid erni'n barod, druan. 'Dyw hi ddim yn dishgwl yn debig y daw Jac Hughes at y ty 'ma ar i hol hi, mwy.

Llen.

ACT IV.

Golygfa 1.

[*Tyisha. Yr un ystafell, tua saith o'r gloch y nos.*]

DAFYDD HUGHES (*yn eistedd ar sgiw wrth y tân*) : Beth ddigwyddodd i'r crwt, ar wn i? Ma 'na rwrai sy'n gwbod, erbyn hyn. Ma e i hunan yn gwbod ; a fe ddyle Lias yr Allt fod yn ol, heno. Wn i ddim beth ddâth i ben Jac i neud pethe dwl fel hyn. Chodes i ddim o'i lewish e, ma dyn yn gwbod. Talu beth oedd raid weles i 'da nhad ariod, ond peth crôs i'r grân 'da Jac ôdd talu pob treth, ag odd y degwm a'r gâts ar 'i fennydd e o hyd, druan bach! A dyma'i ddiwedd e !—Chredes i ariod y magswn i fachgen i fynd o flan i well yng Nghardydd—naddo wir. Fe wedes, lŵer tro, ma mynd ar i wâth ma'r hen fyd 'ma. Ma Jac, fentra i, yn y nghredu i, erbyn hyn.—Machgen annwl i yw e, wedi'r cwbwl. Trueni iddo fe fynd lwr i ben, fel gnâth e. Ond wy'n dymuno daw e trwyddi yn well na 'ngofon i.

BETSI HUGHES (*yn dod i mewn*) : Ddâth ma neb, Dafydd, do fe ?

DAFYDD HUGHES : Naddo, Betsi. Gweld pawb yn cadw draw odw i, y dyddie hyn.

BETSI HUGHES : Gwyn fyd na ddele rhwun â rhyw newydd i ni o Gardydd! W i 'nawr yn barod ar gyfer y gwitha, ta beth fydd e.

DAFYDD HUGHES : W inne'n dishgwl y gore, ag yn ofni'r gwitha.

BETSI HUGHES : Falle bydd pethe'n well nag ŷn ni'n ofni, Dafydd.

DAFYDD HUGHES : Wn i ddim, wir. Ma rhw hen air, ond ôs e, yn gweyd—" Dishgwl pethe gwych i ddyfod ; crôs i hynny maent yn dod." Felna w inne'n i gweld hi, ys cetyn.

BETSI HUGHES : 'Dos dim pŵer o ryfedd am hynny hefyd, Dafydd. 'Dyw'r byd ddim yn gwella fawr 'da neb tua'r Red Lion 'na.

DAFYDD HUGHES : Fuo i ddim yn y pentre heddy, Betsi ; a ma'r byd i fi bron fel ag odd e ddo, os nag yw e'n dduach.

HENRY LEWIS (*yn dod i mewn*) : Dafydd bach a Betsi, shwd ŷch chi'ch doi ? Chlywsoch chi ddim newydd am Jac 'to, do fe ?

DAFYDD HUGHES : Dim gair, Henry Lewis.

HENRY LEWIS : Falle i bod hi'n gynnar i'r newydd gyrradd. Wyddoch chi ddim os dethwn nhw at i gês e, hyd yn hyn. Ma 'na gymint ohenyn nhw i gâl u trio.

DAFYDD HUGHES : Dyna chi. Ma'r peth ych chi'n i weyd yn ddigon posib ; a thyse rhwbeth wedi digwdd, shawns na fydden ni wedi clwed, achos ma newydd drwg yn cered yn gloi.

HENRY LEWIS : Falle ma newydd da sy ar y ffordd, a'i fod e'n cymryd i amser.

BETSI HUGHES : Fe obithwn y gore, Henry Lewis, nes clwed beth sy idd i glwed.

HENRY LEWIS : Trueni mawr fod Jac lle ma fe. Fe dries i gynghori e, fe a'i ffrindie, mwn pryd.

BETSI HUGHES : Odd rhai ohonoch chithe, ond ôdd e, am wella pethe ? Ma arna i ofon ma gofalu bod ych crwyn chi'n iach ôdd y peth mwya 'da chi, wedi'r cwbwl.

HENRY LEWIS : Nid achub y nghrôn ôdd gen i mwn golwg, na Mr. Lott, Goitre Wen ; ond gwella pethe drw deg.

BETSI HUGHES : Ie, ma'n debig. Fe welsoch bŵer o bethe'n dod i wlad heb fod rhwun yn barod i dalu llawn brish am u câl nhw ! Ware teg i Lias yr Allt ; fe'n unig, o'r ffarmwyr mwya, âth drw'r tew a'r tene gyda'r bechgyn ifenc, a nid i fai e odd na ddalwd e wrth Gât y Bont. Sefe neb o'r cwnstablied o'i flân e. Fe loriodd wech ohenyn nhw cyn dod 'nol at yr Inn. A beth bennag ddaw o Jac, ôdd e o lia'n credu bod modd i neud yr hen fyd 'ma dipyn bach yn well nag ôdd e—ôdd, y machgen glân i—ag er iddo fe dynnu i hunan i drybini, ma'n well 'da fi, Henry Lewis, i weld e yn y jâil na'i weld e'n capo a phlygu i *swindlers* y plwyf—ond dyma Lias o'r diwedd!

(ELIAS JONES *yn dod i mewn ar ffrwst.*)

ELIAS JONES : Betsi fach! Mi ddetho mor gynted âg y gallwn i. Dafydd bach! Mi ddetho'n

ddigon cynnar â'r newydd sy gen i. Ond codwch ych clonne, fe alle fod yn wâth.

BETSI HUGHES : Beth bennag sy 'da chi, Lias bach, gadwch i ni gâl e—mas â fe—w i'n barod i'r gwitha.

ELIAS JONES : Gadwch i ni weld. Ma plant Cwm Cile, Rees a John, wedi câl diddeg mish o jâil.

BETSI HUGHES : Druen bach!—Ond beth am Jac ni ?

ELIAS JONES : Ma Lewis Dafis wedi ellwn yn rhydd, ond i ddod lan o'u blân nhw, pan alwan nhw am dano fe.

BETSI HUGHES : On i'n meddwl, wir. Asgwrn cefen bach ôdd 'dag e. Ond wir, pidwch â nghadw i fel hyn. Beth am Jac ?

ELIAS JONES : Ma Dafydd Jones yn câl i dransporto am saith mlynedd.

BETSI HUGHES : O'r creadur bach! Beth ddaw o'i wraig a'i dilu bach e ? O Jac bach! odi ddi'n wâth arno fe na hyn ?

ELIAS JONES : Fe bledwd yn dda dros Jac, a fe ofynnwd am drugaredd y barnwr arno fe. Wn i ddim shwd byse hi arno fe ombae am hynny. On nhw lawr yn drwm iawn arno fe o'r dechre, ag am weyd ma fe ôdd y *ring-leader* yn yr holl barte hyn i gyd. Mi nethon bŵer o'r hen notis 'ny geson nhw arno fe wrth Gât y Bont, ag wrth gwrs, alle neb wadu ta nid Jac ôdd Rybeca, y nosweth hynny.

BETSI HUGHES: O dewch, Lias bach! Gadwch i fi glwed beth ddigwyddodd i Jac, y machgen annwl i. 'Dyw e ddim i gâl 'i grogi, odi e?

ELIAS JONES: Na, Betsi; 'dôs dim byd cynddrwg a hynny i ddigwydd iddo fe hefyd. Ond ma e i gâl i dransporto—

DAFYDD HUGHES: Druan o machgen bach i!

ELIAS JONES: I Dasmania—am—ugen mlynedd.

BETSI HUGHES: O'n Jac annwl i! Wela i byth mo ti, mwy. Cannwll yn llygad i ôt ti,—O, nghrwt diniwed i!

DAFYDD HUGHES: On i'n ofni, Lias, na fydde 'da chi ddim newydd gwell na hyn inni, ond er cynddrwg yw e, ma e cystled âg ôn i'n ddishgwl, O, Jac bach! Ma i ben e'n ishel, heno. Byd o'i le yw hwn, a byd o'i le fydd e, mwy.

ELIAS JONES: Na, Dafydd, mi ddaw'r byd ma'n well, rwbryd, drw aberth Jac Hughes, a rhwrai tebig iddo fe.

BETSI HUGHES: Er cymint yw 'ngofid i, Lias, dyna air yn i le ôdd hwna, a gair o glondid mawr i finne. Gwerth gwâd yw pob rhyddid, a ma Jac yn cered heno ar lwybyr rhai gas u herlid o achos u cydwybod o'i flân e ym mhlwyf Llannon.—O, Jac bach! ma 'nghalon i'n friw, heno, am danot ti, ond

dyma nghysur i—ma gen i fab â'r streipen goch ôdd ar y diwygwyr arno fynte, erbyn hyn.

HENRY LEWIS : Cysurwch ych gilidd gore gallwch chi, heno. Falle bydd pethe'n well nag ŷch chi'n feddwl, wedi'r cwbwl, cyn diwedd.

ELIAS JONES: Ie, w i'n cydweld â Henry Lewis ar hyn, ta beth. Fe all y frenhines ifanc drugarhau wrth Rybeca a'i phlant. Ma na bŵer ohenyn nhw yn aros u prawf yng Ngharfyrddin 'to, fel ŷch chi'n gwbod. Trystwn ma felny bydd hi. Fe ddŵa i gyda chi, Henry, os cerwch chi gyda fi. Nos da, Dafydd a Betsi Hughes! (*Y ddau yn mynd allan.*)

BETSI HUGHES : Ma hi'n bryd i ninne fynd i drio gorffwys.

DAFYDD HUGHES : Os gorffws hefyd. Shwd ma hi ar Jac, heno, druan ?

BETSI HUGHES : Ie, machgen annwl i!—Ond fe wn i fod Jac yn cysgu â'i wyneb ar y wawr.

(*Yn mynd allan ill dau.*)

Llen.

Golygfa 2.

[*Gelliwernen, yr un ystafell, tua hanner awr wedi chwech o'r gloch y nos.*]

MISS EDWARDS : Hanner awr wedi whech! O'r hen wahoddiad 'ma i'r Plas! 'Dos dim whant arna i fynd o gwbwl. Ma Mrs. Goring yn fenyw o'r gore, er ma Sisnes yw hi ; ond alla i ddim bod yn debig i fi 'nghunan gyda'r merched 'na. Ma gormod o brancs Llunden ernyn nhw, i un fel fi. Ond ma nhad a mam yn mynd, a ma'n debig y bydd raid i finne fynd 'da nhw. Ma'r Ficer hefyd i fod yno. Fe fydd ishe oilo tipyn ar dafod Mr. Rees, hefyd, i frablan Sisneg gyda'r gwŷr mawr 'ma ; ond ma *e*, ware teg iddo, yn fwy cartrefol na fi mewn llefydd o'r fath.—Fe wn, 'da llaw, y ca i dipyn o 'mhoeni 'da Mrs. Goring. Fe fydd am wbod pryd ma'r *great event* yn dod *off*, a rhyw bethe felna. A dyma fi—dw i ddim gronyn nes yn awr na phan fuws y Sgweier a'i dilu 'ma ddywetha. Nid fod hynny'n ddim gwahanieth gen i. Dim o gwbwl. W i'n ddigon bolon i bethe fod fel ma nhw, ond y ma hi'n rhy ddrwg fod neb yn câl yr enw—a dim yn bod. 'Dyw Mr. Rees ddim wedi galw "Gwen" arna i ariod, er 'i fod e yma byth a hefyd. W i'n gweyd wrth y rhai sy mor ewn a gofyn, ma caru nhad y ma e. Fe sy'n gwbod. Ma e'n ddyn bach digon neis a

phiwr; ryfeddwn i fawr na allwn i fod yn ddigon hapus 'dag e, heb fod fawr o'r peth ma nhw'n galw *cariad* arno fe o un ochr mwy na'r llall. Ond ôn i'n meddwl, y bore 'ma, na fydde fe ddim yn ddrwg i gyd 'da fi tyse un o ferched y Plas yn cwmpo mwn cariad 'dag e, heno.—Druan o Ann! Ma twymyn o hireth erni. Chredes i 'riôd fod 'da hi shwd olwg ar Jac Hughes. Ma hi fel se hi'n i angladd e, ar hyd y dydd, ag w i'n i chlwed hi'n ochnido am dano fe yn i chwsg, bob nos. A ma Jac yn câl i hala dros y môr, un o'r dyddie hyn—heddy ne fory—'dw i ddim yn shiwr p'un. Gwyn fyd na fydde gen i rywun fel Jac Hughes i 'ngharu i, hyd yn ôd se fe'n gorffod mynd dros y môr i Dasmania am ugen mlynedd! Ond wy'n clwed mam a nhad yn dod lawr. Ma'n rhaid i finne fynd, sposo gen i. O'r hen fyd 'ma â'i seremoni! (*Yn mynd allan.*)

(ANN *yn dod i mewn ymhen ychydig.*)

ANN JONES : Dyna nhw wedi mynd! Jac bach, dyma ti a finne yma 'nghunen! Ware teg iddi hefyd. Allswn i ddim pido â chlwed. Er cymint wedodd hi yn dy erbyn di, Jac bach, fe fydde'n well 'da hi fod yn yn lle i heno na bod yng ngwledd y Plas. Falle byddwn ni'n briod o flân Miss Edwards 'to, Jac. Ma 'nghalon i'n itha trwm, odi'n wir ; ond alla i ddim meddwl am danot ti ar y môr o gwbwl, tra bo dy lyther bach di fan hyn 'da fi. (*Yn tynnu'r*

llythyr allan o'i mynwes.) Dyma fe!—Angel bach gwyn wyt ti, lyther bach! (*Yn ei gusanu.*) Ma hi'n ddigon twŵel 'ma, heno, i fi dy glwed di, Jac. Fe alla gredu'n rhwydd ma ti sy'n wilia, er ta fi sy'n darllen. Beth wyt ti'n weyd fan hyn ? (*Yn rhoi ei bys ar ganol tudalen.*) "*True till death* ôdd gair Rybeca, a dyna 'ngair i heno i ti, Ann. ('A 'ngair inne i tithe, Jac.') Fe ddaw llawer tro ar fyd yn ystod ugen mlynedd ('daw'), ond fydd 'na ddim cysgod tro yndo i ('na fydd, Jac bach, nag yn Ann'). Fe weli di a finne bŵer o flinder ('os ca i lythyr bach yn amal, fe wela lai'), ond fe fydd yn ddydd ar Gymru pan fydd hi'n nos ar Dasmania ('fe gei di beth ohono fe, Jac, os galla i hala fe mwn llyther'). Ma gire cân Dai'r Cantwr—ma e yma 'da fi—yn taro iddo fe ag i finne, heddy ('odyn wir, Jac, ond paid ti â thorri dy galon'). 'Drych i fyd wyf i fod, collais glod allswn gael. Tost yw'r nôd—dyrnod wael i'w gafael ddaeth â mi.' Alli di na finne ddim u canu nhw, ar hyn o bryd ('fydd dim ishe u canu nhw pan ddŵi di 'nol'). 'Dros ugen o flynyddoedd, tost yw'r nôd, cystudd maith '—('ie, ond fe ân hibo fel blynyddodd Jacob gyda Laban, gei di weld'). Tyswn i wedi grindo arnot ti, Ann, fyswn i ddim fan hyn ('digon gwir, ond paid â gweyd fawr yn erbyn y gwr wy'n garu'). On i'n clwed dy laish di yn y ngalw i'n ol, cyn dod at Gât y Bont, ond yr ôdd rhw laish arall yn yn hala i mlân yn ddiberswâd. A mlan

yr etho i (' 'dôt ti ddim am achub dy grôn, ta beth, fel rhai '). Ma mraich i 'nawr wedi gwella, ond ma clwyfe ar y nghalon i na wella nhw byth, cyn ca i dy weld di, Ann. (' Fe wellan beth, ond i ti ddala i obitho '). Fe fydda i 'da ti yna bob dydd, o ran y meddwl (' byddi, byddi, 'rwyt ti yma, heno '). A fe ddaw diwarnod, os byddwn ni byw, y gwelir ni'n doi o'r diwedd, yn un—yn un—am byth—ta pwy fydd byw i weld. (' Fe fyddi di a finne dipyn yn frithach yn penne, Jac bach, ond fe fydd yn serch ni'n ifancach nag yriod '). *True till death,* medd Rybeca, fel o'r blân. Hyd dragwyddoldeb, Ann,

Dy annwyl Jac."

(*Yn anwylo'r llythyr.*)

(' Heno a byth, Jac annwyl—*True till death.*')

Llen.

THE EDUCATIONAL
PUBLISHING CO., LTD.,
CARDIFF AND LONDON.

E.P.C. New List of Plays & Dramas

IN ENGLISH AND WELSH.

THE BAKEHOUSE. (*J. O. Francis.*) 1/- net, post free 1/2.

CHANGE. (*J. O. Francis.*) Boards, 2/6, post free 2/9. Paper Covers, 2/- net, post free 2/3.

NOSON O FARRUG. (*R. G. Berry.*) 1/- net. post free 1/2.

Y PWYLLGOR. (*D. T. Davies.*) 1/- net, post free 1/2.

YR HEN DEILIWR. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net, post free 1/2.

THE GREAT EXPERIMENT. (*Naunton Davies and Stanley Drewitt.*) 2/- net, post free, 2/3.

THOSE WHO WAIT. (*Ernest Cove.*) 1/- net, post free 1/2.

LLWYBRAU ANRHYDEDD. (*D. Derwenydd Morgan.*) 2/- net, post free 2/3.

RYBECA. (*Gwili.*) 2/- net, post free 2/3.

TEN SHORT PLAYS—Cyngor Plwy'—Trwbwl yn Wrecsam—Nith Dic Shon Dafydd—Ar Leave—Natur Plentyn—Byddin y Plant—Dyfodol Plentyn—Y Milwyr ar Brawf—Cosbi Dafydd—Yr Hen Siopwr. 2/- net, post free 2/3.

Licences for Public Performance to be obtained from

The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.

UNIVERSITY OF ILLINOIS-URBANA
3 0112 077585377

E.P.C. New List of Plays & Dramas

IN ENGLISH AND WELSH.

YR HEN SCWLIN. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net post free 1/2.

DAFYDD AP GWILYM. A Romantic Cantata (*Harry Evans.*) Solfa, 1/-, Old Notation 3/- net.

PLANT Y PENTREF. Welsh School Play with music. Old Notation, 4/- net, words only 2d. net.

OWAIN GLYNDWR. Nos. 1 to 7. Short Plays for Schools. 3d. each net. Nos. 1 to 7, bound together 1/6 net.

Y FERCH YNGHYFRAITH. (*R. G. Berry.*) 1/- net, post free 1/2 net.

HANNAH COMES ROUND. (*G. J. Griffith.*) 1/- net, post free 1/2 net.

Licences for Public Performance to be obtained from

The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.